

ECO'R WYDDFA

Rhif 213


MEHEFIN 1995

Pris 25c

CAU'R POST



PENDERFYNIAD HURT



Ddechrau fis Mai caewyd drws Siop a Swyddfa'r Post yn Nant Peris am y tro olaf. Mae pentre'r Nant, felly, fel aml i bentref bach arall yng nghefn gwlad Cymru, wedi dod yn bentref di-siop erbyn hyn. Cadwyd y siop yn ystod y blynyddoedd diwethaf gan Mrs Ann Price gyda chymorth Mrs Prydwen Pritchard. Bydd yn chwith gan drigolion y Nant weld y drws wedi'i gau, ond gobeithir y gellir darparu gwasanaeth rhan-amser gan y Swyddfa'r Post mewn man arall yn y pentref.

**'NABOD
EICH
CYNGHORWYR
gweler
tudalen 13**

Ddydd Gwener, Mai 12, cynhaliwyd arddangosfa yn Angorfa i roi cyfle i bobol weld yr argymhellion a wnaed yn dilyn arolwg o anghenion trafndiaeth Llanberis.

Bu trafod ers blynyddoedd ynghylch problem parcio a llif traffig yn y pentref. Yr hyn a argymhellir gan y cwmni a wnaeth yr arolwg ar ran Cyngor Gwynedd yw sefydlu sustem traffig un-ffordd trwy'r pentref — o Westy'r Prince of Wales hyd at y gyffordd â'r ffordd-osgoi o flaen Maes Padarn. Bydd manau parcio arbennig yn cael eu creu ar hyd y Stryd Fawr.

Un man sy'n amlwg yn broblem yw'r parcio wrth ymyl Siop Spar. Mae pryder arbennig ynglŷn â diogelwch plant sy'n mynd a dod o Ysgol Dolbadarn. Tybed, felly, a ddylid bod wedi cael gwell cydweithrediad rhwng y Cyngor Sir ac Adran Gynllunio Cyngor Arfon. Tra roedd Gwynedd yn ceisio setlo problem y traffig a diogelwch roedd Arfon yn caniatáu codi rhes o dai ar hen safle'r Clinig ar Ffordd Capel Coch. Bydd y maes parcio wrth y Clinig — a ddefnyddir yn ddyddiol gan rieni wrth nôl a danfon eu plant o'r ysgol — yn cael ei golli.

Ai dyma un o'r penderfyniadau mwyaf hurt a wnaed gan gynllunwyr Arfon yn ddiweddar?


DATHLU PEN-BLWYDD ENID

Bydd Enid yn 100 mlwydd oed y mis hwn.

Adeiladwyd injan rhif 2, Rheilffordd y Wyddfa, yn y Swisdir ar gyfer y cwmni a adwaenid bryd hynny fel Cwmni Ffordd-dram a Gwestai Mynydd y Wyddfa. Mae wedi aros ar yr un rheilffordd felly am ganrif ac, wrth gwrs, mae'n dal i wthio cerbydau i ben y mynydd heddiw.

Mae'n debyg ei bod wedi dringo'r mynydd dros 30,000 o weithiau, ac wedi teithio oddeutu chwarter miliwn o filltiroedd ar y rheilffordd.

Enid oedd un o'r ddwy injan gyntaf i'w harchebu gan y Cwmni oddi wrth gwmni o Winterthur yn y Swisdir. Daeth yma i Lanberis ym Mehefin 1895 i hwyluso gosod y lein yn y lle cyntaf. Cafodd ei henwi ar ôl merch Mr a Mrs Duff Asheton-Smith, Stad y Faenol. Y ferch honno oedd wedi torri'r dywarchen gyntaf pan ddechreuwyd adeiladu'r rheilffordd ar 15 Rhagfyr 1894.



GALW ENID!

Mae Cwmni Rheilffordd yr Wyddfa yn gwahodd pob 'Enid' i deithio yn rhad ac am ddim i ben yr Wyddfa rhwng 24 Mehefin a 24 Gorffennaf eleni. Dyma un ffordd arbennig o ddatlu pen-blwydd yr injan. Felly, os oes Enid yn eich enw chi, neu os gwyddoch am ryw Enid arall, beth am fanteisio ar y cyfle hwn. Yr unig amod yw eich bod yn gallu profi bod 'Enid' yn rhan o'ch enw, a'ch

bod yn dod a theithiwr arall gyda chi a fydd yn talu'r pris arferol am docyn.

Bydd Triniaeth Arbennig (VIP) i unrhyw 'Enid' sy'n cael ei phen-blwydd ar **25 Mehefin**, sef y dyddiad y cyrhaeddodd yr injan Lanberis. Dylai unrhyw un sy'n gymwys i'r 'Bonws Pen-blwydd' arbennig hwn gysylltu â Rheolwr y Rheilffordd ymlaen llaw. Ffoniwch (01286) 870223, neu ysgrifennwch at Reilffordd yr Wyddfa, Llanberis.

ECO'R WYDDFA

Rhif 213
MEHEFIN 1995

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru

SWYDDOGION A GOHEBWYR

GOLYGYDDOL
IWAN ROBERTS
LLEIFIOR, LLANRUG
Ffôn: (01286) 675649
JOHN PRITCHARD
CILFYNYDD, LLANBERIS
Ffôn: (01286) 872390

GOLYGYDD CHWARAEON

Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

DYDDIADUR Y MİS

Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi,
Deiniolen (870394)

FFOTOGRAFFWR

Gwyndaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)

DATBLYGU LLUNIAU

Bryn Jones, Elidir, Allt Dewi,
Bangor (01248) 353337 neu
871925

TREFNYDD HYSBYSEBION

John Roberts, Bedw Gwynion,
Llanrug (675605)

TREFNYDD BWNDELU

Ann Gibbins, Lobj Plas Tirion,
Pontrug (673696)

TREFNYDD ARIANNOL

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHIAN POST

Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon
Bach, Llanrug (650200)

TREFNYDD PLYGU

Shioned Griffith (650570)

GOHEBWYR PENTREFI

Dyma'r bobl i gysylltu â nhw
yn eich ardaloedd.

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248 670726)

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys
Roberts-Williams, Godre'r Coed
(870580)

CAEATHRO: Clive James, Hafan,
Bryn Gwna (677438)

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DEINIOLLEN: W. O. Williams,
6 Rhydfadog, Deiniolen (871259)

DINORWIG: Glyn Tomos, Pen y
Bwlch, Dinorwig (870576)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion
Roberts, Becws Eryri (870491)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn
Moelyn (675384)

NANT PERIS: Elwyn Searell Jones,
Dwyfor (870440)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans,
Sycharth (872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU, MEHEFIN 29
Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol
NOS LUN, MEHEFIN 19
os gwelwch yn dda

DYDDIAU A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr, Ffôn: 650570

RHIFYN	DYDDIAD PLYGU	BLE?	CYSYLLTU Â	RHIF FFÔN
GORFFENNAF AWST	MEHEFIN 29	BRYNREFAIL	Mrs L. P. Roberts-Williams	870580
MEDI	MEDI 7	DINORWIG	Mr Meirion Tomos	870056
HYDREF	MEDI 28	PENISARWAUN	Mrs Ann Evans	872407
TACHWEDD	HYDREF 26	LLANBERIS	Mr Gwilym Evans	872034
RHAGFYR	TACHWEDD 30	CAEATHRO	Mr Clive James	677438

Diolch i'r cysylltwyr am eu cefnogaeth.

MAE CAMERÂU YR ECO AR GAEL GAN Y CANLYNOL:

BETHEL: Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl (0248) 670115

WAUNFAWR: Heulwen Huws, Argoed (650556)

DEINIOLLEN:

LLANBERIS: John Pritchard, Cilfynydd (872390)

Llythyrâu

DIOLCH AM ADUNIAD

Annwyl Olygydd,

Hoffwn, ar ran 'Miss Alice' a
minnau, ddiolch o galon i ddosbarth
'72, Ysgol Dolbadarn, am eu croeso
hynaws yn yr Aduniad ar 28 Ebrill.

Cawsom amser difyr a hwyliog
dros ben, gyda phopeth wedi'i
drefnu'n ardderchog.

Pleser oedd gweld pawb yn edrych
mor dda ac, yn amlwg, yn ffynnu.
Pleser hefyd oedd bod yng nghanol
criw mor hwyliog yn mwynhau
cwmni hen ffrindiau.

Noson i'w chofio yn wir. Diolch i
chwi oll.

ELIZABETH B. GRIFFITHS
1 Rallt Goch
Ffordd Capel Coch
Llanberis

GAIR O DDIOLCH

Annwyl Ddarllenwyr,

Ysgrifennaf atoch ynglyn ag
ymddeoliad diwedd fy mam, Mair
Roberts (Mair Coed) o'i swydd fel
derbynnyd dyng Nghanolfan lechyd
Llanberis ar bron i ugain mlynedd o
wasanaeth.

Mae'n wir iddi fwynhau gweithio
i'r meddygon ac iddi helpu llawer o'r
cleifion dros y blynyddoedd.
Dywedwyd wrthyf lawer gwaith ei
bod hi'n dda i'r feddygfa ond mi wn
i hefyd i'r feddygfa fod yn dda wrthi
hithau.

Hoffwn gymryd mantais o gylch-
rediad yr Eco i ddiolch i'r meddygon
a staff y Ganolfan lechyd am y
sypris o barti ffarwelio a drefnwyd
yn y Bistro, Llanberis, ar nos
Sadwrn, 11 Mawrth, ac am yr
adloniant penigamp a gafwyd yn
ystod y noson. Cawsom fel teulu
agos wahoddiad i ymuno yn y
dathliadau — amser bythgofiadwy.
Bydd y profiad yn aros gyda Mam am

byth.

Yn ogystal hoffwn ddiolch i bawb
a anfonodd gerdyn neu anrheg at
Mam ar achlysur ei hymddeoliad ond
mae'r rhestr yn rhy niferus i enwi pob
un ohonoch yn unigol. Yn sicr, mae'r
cyfan wedi bod o help mawr i
Mam i orffen ei gwaith gyda
chalon ysgafn gyda'r wybodaeth
bod ei gwasanaeth wedi cael ei
werthfawrogi gan cyn gymaint o
bobl.

Diolch yn fawr iawn i bawb.

Yr eiddoch yn gywir,

IEUAN LLOYD ROBERTS
Eryri, 21 Palace Avenue, Y Rhyl.

BACHA HI O 'MA '95

Cyfle i fachu cariad, arian a gwyliau

Ydach chi'n sengl, llawn bywyd,
dros 18 oed ac yn chwilio am
bartner?

Mae 'Bach Hi O 'Ma yn ôl ac yn
chwilio am gystadleuwyr.

Rali Senedd i Gymru

Trefnwyd i gynnal Rali boblog-
aidd enfawr yng Nghaernarfon 2
o'r gloch, p'nawn Sadwrn,
Gorffennaf 1af gan Bwyllgor
Clwyd a Gwynedd o Ymgyrch
Senedd i Gymru mewn cyfarfod
yng Nghaernarfon ar Fai 22ain.
Hon fydd y rali gyntaf o gyfres o
raliau ar draws Gymru dros y
flwyddyn nesaf.

Mae siaradwyr ar ran bob un
o'r gwrthbleidiau yn barod wedi
cytuno i siarad a disgwylir
cynrychiolaeth o bob mudiad
yng Nghymru yn ogystal â'r
undebau ac enwadau crefyddol.

Trefnir seindorf a chôr lleol i
arwain yr orymdaith o gwmpas
y dref cyn ac ar ôl y cyfarfod a
gynhelir ar y maes. Gellir cael
mwy o wybodaeth trwy gysylltu
â **Dylan Morgan (01248)**
750218.

Eleni, mae cyfle i BAWB ennill rhwng
£100 a £1,000 a lluo o wobrau eraill,
a'r brif wobwr o wyliau egsotig.

Mi fydd y gyfres newydd yn cael
ei recordio ym mis Gorffennaf, ac
rydan ni'n awyddus i glywed
ganddoch chi.

Os ydych chi am fod yn un o'r 150
lwcus fydd ar y rhaglen,
'sgwennwch atom ni neu ffoniwch
AR UNWAITH — mae Jen a Sioned
yn disgwyl clywed ganddoch chi.

Cyfeiriad:

DIME GOCH

CIBYN, CAERNARFON, GWYNEDD
Ffôn: (01286) 678592

CYFEILLION YSGOL WAUNFAWR

SÊL CIST CAR

NOS FERCHER, 7 MEHEFIN

AR IARD YR YSGOL

GIATIAU AR AGOR AM 6 p.m.

PRIS Y CAR (bwrdd): £4 yr un



GWÊL Y
LLYN


Lake View
Hotel
LLANBERIS
870422

Prydau Arbennig
ar gyfer partïon

Byddai perchnogion
a staff y gwesty yn
falch o'ch croesawu
ar gyfer dathliadau
o bob math.

★ Tacsî

★ Maes Awyr



Yfwch chi
Gyrrwn ni!

Ffôn: 871049/symudol 0831 429970

neu ffoniwch ni am ddim ar

National Cabline — Freephone 0800-123-444

FFANTASI

Er cymaint llwyddiant tîm pêl-droed Deiniolen eleni mae'n amlwg bellach nad John Williams yw unig reolwr llwyddiannus y fro. Bu nifer o bobl yr ardal yn dilyn hynt a helynt cystadleueth 'Pêl-droed Ffantasi' y *Daily Post* drwy'r tymor. Ac mae'n wybyddus bellach mai Dafydd Arfon Jones o Lanrug yw rheolwr buddugol y gystadleuaeth honno. Ei dîm ef, sef 'Sêr Clwb Pêl-droed Llanrug Unedig' (Llanrug Utd All Stars), yw pencampwyr y *Daily Post* am y tymor.

Yn rhyfedd iawn, nid oedd bwriad gan Dafydd gystadlu yn wreiddiol. Ond pan ddewisodd ei fab, Meilir, dim ar gyfer y gystadleuaeth, a brolio'r tîm hwnnw i'r cymylau, roedd rhaid ymateb i'r sialens. Fel yr âi'r tymor yn ei flaen, doedd dim sôn am dîm Meilir. Ond roedd Sêr Llanrug yn amlwg yn y gynghrair trwy gydol y tymor. Erbyn mis Chwefror roedd y tîm wedi cyrraedd y brig, ac yno yr arhosodd tan ddiwedd y tymor. I wneud i fyny am ddiffyg llwyddiant ei dîm ef penodwyd Meilir yn is-reolwr tîm ei dad.

Pwy a wŷr na fydd Jones & Jones ryw ddydd yn cystadlu â Ferguson a Kidd neu Dalglish a Harford?

Tîm buddugol Dafydd oedd:

JAMES (Lerpwl)			
SCALES (Lerpwl)	PALLISTER (ManU)	ADAMS (Arsenal)	BERESFORD (Newcastle)
PEACOCK (Cheslsea)	BARNES (Lerpwl)	GIGGS (ManU)	
FOWLER (Lerpwl)	COLE (ManU)	NDLOVU (Coventry)	

Roedd Cantona yn y tîm hefyd cyn iddo golli'i ben yn y Palas Grisial!

SUL Y BEIBLAU

Cylch Deiniolen

Cynhelir Cyfarfod Sul y Beiblau ar ddydd Sul, Mehefin 25, yn Eglwys Llandinorwig.

Y plant fydd yn gwasanaethu yn y prynhawn o dan arweiniad Mr Glyn Tomos, Dinorwig.

Arweinydd y canu yn y Gymanfa am 6 o'r gloch fydd Mr Robin Jones, Bethel, a'r Parchg Glyndwr Williams yn llywyddu.

Edrychwn ymlaen at gyfarfodydd llwyddiannus a bendithiol eto eleni.

TLWS YR ECO



Llanrug — enillwyr Tlws Iau yr Eco 1995

CÔR MEIBION DYFFRYN PERIS

MAE'R CÔR ANGEN CANTORION YN
Y PEDWAR LLAIS.

OS OES DIDDORDEB GENNYCH
BETH AM YMUNO Â NI
YN FESTRI CAPEL COCH, LLANBERIS
BOB NOS LUN AM 7.30 p.m.

Manylion pellach gan y Cadeirydd ar 872314

Cefnogwch ein
Hysbysebwyrr



AMGUEDDFEYDD AC ORIELAU CENEDLAETHOL CYMRU

AMGUEDDFA ERYRI, LLANBERIS TOCYN MYNEDIAD AM £5!

(AR GYFER TRIGOLION PLWYFI LLANBERIS, LLANRUG A LLANDDEINIOLEN YN UNIG)

Mae'r tocyn yn caniatáu mynediad yn rhad ac am ddim i'r deiliaid a thri aelod o'i deulu/theulu, neu gyfeillion, hyd at ddiwedd mis Mawrth 1996. Bydd holl arddangosfeydd yr Amgueddfa ar agor i ddeiliaid tocynnau, gan gynnwys ymweliad, a thaith bws, i Orsaf Drydan Dinorwig. (Dylid trefnu ymlaen llaw gyda'r Amgueddfa ar gyfer y tripiâu hyn.)

RHAI O'R ARDDANGOSFEYDD I'W GWELD YN YSTOD 1995:

CADW Tŷ YNG NGHYMRU / MAMOTHIAID AC OESOEDD YR IÂ hyd fis Hydref 1995)

WYBREN EHANGACH — GOLYGFYDD O BATAGONIA gan Kyffin Williams
(3 Mehefin — 16 Gorffennaf 95)

TAITH DDARLUNIADAU TRWY OGLED CYMRU (22 Gorffennaf — 10 Medi 1995)

PICASSO — HISTOIRE NATURELLE (16 Medi — 15 Hydref 1995)

CYMDEITHAS GELFYDDYD GYFOES CYMRU (21 Hydref — 26 Tachwedd 1995)

ARDDANGOSFA NADOLIG Y PLANT (12 Rhagfyr — 21 Rhagfyr 1995)

Dylid anfon y ffurflen (neu gopi ohoni) GYDA THÂL i: Ms NIA WILLIAMS, Swyddog Gweinyddol,
Amgueddfa Eryri, Llanberis LL55 4UR (Ffôn 01286 870636) — neu galwch heibio'r Amgueddfa

ENW.....

CYFEIRIAD.....

O SIAMBAR SELWYN

Dwi wedi bod yn reit brysur yn ystod y ddeufis diwethaf 'ma — yn hapus o brysur a deud y gwir — yn teithio o steddffod i steddffod, o un pen o Wynedd i'r llall. Dwi wedi cyrraedd adre o bob un ohonyn nhw bron yn ystod oriau mân bore Sul — yn flinedig tu hwnt — ond eto yn hapus ryfeddol oherwydd dwi'n teimlo fod yna rhyw adfywiad iach ym myd eisteddfodau lleol Cymru y dyddiau hyn.

Yn ystod y deugain mlynedd diwetha 'ma rydwi wedi teithio ledled Cymru i feirniadu mewn yn agos i 400 o eisteddfodau bach a mawr, ac yn naturiol dros y cyfnod hwnnw rydwi wedi cael steddffodau gwyach, rhai gweddol, a rhai gwael. Fel ym mhob maes arall fe geir llanw a thrai ym myd yr eisteddfod hefyd.

Ond, yn sicr ddigon, eisteddfodau gwyach a gafwyd eleni yn Nhalysarnau, Dinas Mawddwy, Mynytho, Cylchwil Bodffordd, Clynnog a Dolgellau.

Sylwch mai eisteddfodau pentrefi yw'r uchod i gyd — ar wahân i Ddolgellau — a rhaid cyfaddef mai pentrefi gwledig Cymru sy'n cynnal y traddodiad eisteddfodol, ac ychydig iawn o bentrefi gwledig Cymru sy heb eu steddffod flynyddol.

Chlywn ni byth am eisteddfod leol Bangor, Llandudno, Caergybi, Llangefni, Pwllheli, Porthmadog, na Caernarfon. Ie, Caernarfon o bobman. Hen dref sydd â thraddodiad eisteddfodol arbennig iddi. Er ymdrechion di-flino Geraint Llwyd Owen a'i dîm bach o gefnogwyr y 'pethe' methiant fu'r ymdrech i ennyn diddordeb pobol y dref i gefnogi'r eisteddfod, ac yn yr eisteddfod olaf i'w chynnal yn Ysgol Syr Hugh Owen welais i yr un aelod o Gyngor Tref Caernarfon ar gyfyl yr eisteddfod drwy'r dydd; a phrin ddau ddwsin o gynulleidfa oedd yno yn gwrandao ar y prif gystadleuthau adrodd a chanu. Ai tref sy'n byw ar ddiwylliant y gorffennol yw Caernarfon?

Roedd pethau yn bur wahanol yn eisteddfod tref Dolgellau, nos Sadwrn, 13 Mai. Neuadd Idris yn orlawn, a chystadlu brwd drwy'r dydd. Pedwar o gorau o'r ardaloedd cyfagos (o, ia, o'r pentrefi gwledig) megis Llanbrynmair, Llanuwchllyn a Llangwm. Môr o gân a'r awyrgylch yn fendigedig. Wyth yn cystadlu am y gadair, a'r wyth yn deilwng o'r anrhydedd. Un o'r ychydig eisteddfodau a gynhelir mewn tref yw eisteddfod Dolgellau, a diolch i'r gefnogaeth a gafwyd gan y pentrefi gwledig cyfagos, bu'r wyl yn un hapus a llwyddiannus.

Fe dderbyniais i dros gant o gyfansoddiadau llenyddol o eisteddfodau Talsarnau a Mynytho hefyd. Deuddeg yn cynnig am y Gadair, a phymtheg am y Fedal Lenyddiaeth yn Eisteddfod Talsarnau, a'r eisteddfod yn parhau o nos Wener hyd oriau mân bore Sul.

Beth sy'n gyfrifol am lwyddiant ambell i steddffod? Wel, i raddau helaeth, gweithgarwch di-flino yr ysgrifennydd. Yr eisteddfod leol fwy llewyrchus yng Nghymru o'm profiad i yw eisteddfod Llangwm, ac os ewch chi i unrhyw eisteddfod yn yr hen Sir Feirionnydd mi ellwch fentro y bydd yr ysgrifennydd gweithgar Emrys Jones (un o gyn-enillwyr haeddiannol Medal Syr T. H. Parry-Williams) yno yn rhannu testunau ac yn gwerthu y gyfrol flynyddol *Llên y Llannau*. Cynnyrch llenyddol eisteddfodau llewyrchus Llangwm, Llandderfel, Llanuwchllyn a Llanfachreth ydi *Llên y Llannau*, ac mae'n gyfrol werth i'w phrynu.

Dowch yn nes adre — i Ddyffryn Nantlle. Breuddwyd y diweddar Hywel Jones a wireddwyd y llynedd drwy gynnal eisteddfod o safon yn Nyffryn Nantlle. Mae ysgrifenyddes yr eisteddfod hon yn crwydro i bob steddffod yng ngogledd Cymru bron i hysbysu ac i wahodd cystadleuwyr i ddod

i Ben-y-groes ar 16/17 Mehefin. Nid yn unig mae Karen Owen yn weithgar fel ysgrifenyddes ond mae hi yn fardd ac yn llenor llwyddiannus. Rydwi eisoes wedi cael y fraint o'i dyfarnu'n deilwng o sawl cadair a medal, ac mae ei brwdfrydedd eisteddfodol yn sicr o ddod a llwyddiant i ail eisteddfod Dyffryn Nantlle.

Dwi'n cofio pan oedd 'na eisteddfodau cadeiriol a choronog 'rhydd i'r byd' ym mhob pentre bron ym mro'r Eco hefyd. Eisteddfodau Gorffwysfa a Nant Padarn, Llanberis. Eisteddfodau capeli Glasgoed a Chefn-y-waun a'r Waunfawr. Eisteddfod Bethel a fu ar un cyfnod yn eisteddfod *bum* noson o dan ysgrifenyddiaeth y diweddar W. C. Thomas (Wili Siwsi). Gyda llaw, W. C. Thomas oedd trefnydd yr Wyl Gerdd Dant gyntaf a gynhaliwyd yn Y Felinheli, ac i ddathlu hanner canmlwyddiant yr Wyl, fe ddaw hi'n ôl i lannau'r Fenai dlawd y flwyddyn nesa — i Gaernarfon.

Rwy'n hynod falch o weld unigolion o fro'r Eco yn llwyddo mewn eisteddfodau ledled y gogledd 'ma. Nifer ohonyn nhw eisoes wedi llwyddo ar lwyfan y Genedlaethol hefyd. Oes, yn sicr, mae yna adfywiad eisteddfodol yn digwydd yng Ngwynedd 'ma. Ddaw o i fro'r Eco ys gwn i? Ddaw o i drefi Gwynedd, megis Caernarfon, Pwllheli, Porthmadog, Llangefni, a.y.y.b.? Gobeithio'n wir.

Cyfeiriais at safon uchel cystadleuaeth y Gadair yn eisteddfod Dolgellau. Hilma Lloyd Edwards o'r Bontnewydd oedd yn fuddugol, a hithau newydd ennill Cadair Pontrhydfendigaid ychydig ddyddiau ynghynt. Mi wn i fod Hilma eisoes wedi eistedd ar fraich y Gadair Genedlaethol fwy nag unwaith, a synnw'n i ddim mai hi fydd y ferch gyntaf i ennill Cadair y Brifwyl.

Y testun yn Nolgellau oedd cyfansoddi dim mwy na deg o gerddi caeth neu rydd ar y testun 'Newid Ddaeth'. Cyfansoddodd Hilma ddeg o englynion, a dyna i chi gamp — cyfansoddi cerdd

mewn deg sill ar hugain, a'r testun 'Newid Ddaeth' yn addas i bob un o'r englynion.

Cefais ganiatâd y bardd i gynnwys rhai o'r englynion yn y golofn hon. Diolch Hilma, a phob llwyddiant i'r dyfodol.

Llys Llywelyn, Abergwyngregyn

*Yn y tŷr yma'n tario — hen Eryr
Eryri fu'n clwydo;
Ar ei wŷs, bu'n bristlys bro
Unwaith, mae'n ddinod heno.*

Cae'r Gors, Rhosgadfan

*Wele, yng ngheubwll calon — un aelwyd
A chwalewyd yn deilchion,
Effaith y traed mewn cyffion
A fu ar hyd y fro hon.*

Caer Rufeinig Segontium, Caernarfon

*Lle bu'r eryrod yn rhodio — y gaer
Wasgarog afrogo
Hon a saif, fel rhyw 'jig-sô',
I adrodd stori'r brwydro.*

Cofeb Llywelyn, Cilmeri

*Daw i gof mai bidog yw — i'r galon
Gan estron a'i ystryw.
Ond i ail-wau'n cenedl wyw,
Nodwydd gobeithion ydyw.*

ble'n well i orffen nag yn . . .

Nant Gwrtheyrn

*Yn y Nant mae'n gobaith ni — rhoi ynni
I'r heniaith rhag trengi
Wna, a'r graig atseinia'r gri —
O Lŷn y daw'r ail-eni.*

CEUNANT

Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon (Waunfawr 799)

Cydymdeimlad: Anfonwn ein cydymdeimlad i Denis a Julie Jones a'r teulu, Rhos y Grug, yn eu profedigaeth o golli tad a thaid yn ddiweddar.

Etholiad Cyngor Sir Gaernarfon a Meirionnydd: Hoffwn gymryd y cyfle hwn i ddiolch i bawb am y croeso a gefais cyn yr etholiad ac am eich cefnogaeth ar 4 Mai. Os gallaf fod o unrhyw gymorth i chwi ar unrhyw fater cofiwch gysylltu â mi ar (01286) 676733 — Charles Wyn Jones, Tyddyn Rhuddallt, Llanrug.

**COFIWCH ANFON
MANYLION AM
DDIGWYDDIADAU'R
HAF ERBYN Y
RHIFYN NESAF**

W.J.GRIFFITH

PLYMAR A GOSODWR
GWRES CANOLOG
Pant Tirlon, Llanrug
Ffôn: Caernarfon 673248


Gosodwyr
Nwy
Cofrestredig
Corgi



Aelod o'r
Association of
Mechanical
Services
Contractors

Dim un dasg rhy fychan
Dim un dasg rhy fawr

AM DEITHIAU CYFFORDDUS, DIOGEL
A RHAD YM MHRYDAIN A THRAMOR ...



**BYSIAU ARFON
LLANRUG**

(Eric Morris)

Ffôn: Caernarfon 675175 a 677858

GERAINT OWEN

Gosodwr
carpedi a phob
math o lorïau

**Cil-y-Mynydd
WAUNFAWR**

Ffôn: Waunfawr
650552

'Un funud fach . . .'

SGWENNU A SŌN

Os oes unrhyw bwn wedi ennyn trafodaeth ar 'Stondin Sulwyn' dros y blynyddoedd, crefydd ydi hwnnw. Bu Sulwyn yn ddigon hirben i ddeall bod codi cwestiynau am bynciau llosg o fyd crefydd yn siŵr o gadw'r Stondin yn brysur am fore cyfan, os nad am ddyddiau ar y tro.

Gallwn felly edrych ymlaen at glywed trafod brwd dros yr wythnosau nesaf yn sgil y newidiadau arfaethedig yng ngwasanaeth Radio Cymru. Nid yn unig y mae 'Stondin Sulwyn' i ddod i ben, ond mae bwriad i ad-drefnu holl raglenni crefyddol yr orsaf. Dyna gyfuniad i sicrhau sacheidiau o lythyrau i'r BBC; dileu'r 'Stondin' ac ymyrryd â phatrwm arferol rhaglenni crefyddol.

Ac nid ad-drefnu arwynebol a fwriedir ar gyfer y rhaglenni crefyddol, cofiwch. Nid cwtogi Oedfa'r Bore o ryw bum munud. Ac nid darlledu'r Newyddion Da o flaen yn hytrach nag ar ôl Newyddion Deg. Y bwriad yn ôl pob sôn yw symud y rhaglenni crefyddol i amseroedd 'amhoblogaidd', yn y bore bach neu'n hwyr y nos, yn ddigon pell fel petai o'r oriau darlledu brig fel na fydd raid i'r gwrandawyr gael eu hypsetio'n ormodol gan sôn am grefydd.

Os ydych yn mwynhau rhaglenni presennol yr Adran Grefydd, beth am ysgrifennu at Olygydd Radio Cymru i ddweud hynny wrtho. Mae'n ofynnol bod gwasanaeth cyhoeddus fel Radio Cymru yn darparu rhaglenni crefyddol, ond beth am daro gair ar bapur i ddadlau o blaid cadw'r rhaglenni ar yr oriau brig fel ar hyn o bryd. Ysgrifennwch at: Aled Glynne Davies, Radio Cymru, BBC, Llandaf, Caerdydd.

Ni allwn ddibynnu ar Radio Cymru i gario neges yr Efengyl i bobol ein gwlad. Ac wrth gwrs ni ddylem ddibynnu ar wasanaeth cyhoeddus i wneud hynny. Ein gwaith ni yn yr eglwysi yw cyhoeddi Efengyl Iesu Grist i bobol ein gwlad. Y rhai sy'n credu'r Efengyl all ddweud wrth eraill am gariad rhyfeddol Duw yn ei fab Iesu Grist. Pryd sonioch chi ddiwethaf wrth rywun am hynny?

JOHN PRITCHARD

Aduniad Safon Pedwar Ysgol Dolbadarn 1971-72



Miss Alice E. Williams a Mrs Elizabeth B. Griffith, dwy o athrawon y dosbarth yng nghwmni'r criw hwyliog a ddaeth i'r Aduniad.

Digwyddiad digon cyffredin y dyddiau hyn yw cynnal aduniad ysgol uwchradd, ond mae'n debyg bod y cyfarfod a gynhaliwyd ar Ebrill 28ain yng Ngwesty Dolbadarn, Llanberis, ychydig yn wahanol. Aduniad ydoedd hwn i gyn-ddisgyblion Safon Pedwar, Ysgol Dolbadarn, Llanberis, blynyddoedd 1971-72, ac roedd tua deg ar hugain yn bresennol ar y noson.

Gwahoddwyd cyn-athrawon i'r aduniad, ac anfonwyd cyfarchion at Mr Selwyn Pritchard, un o gyn-athrawon Safon Pedwar, a oedd yn methu bod yn bresennol oherwydd gwaeldd.

Casglwyd arian ar y noson tuag at Gronfa Ysgol Dolbadarn, a throsglwyddwyd y siec i Mrs Elizabeth Roberts, y brifathrawes, gan y trefnwyr, sef Gareth Jones, Ian Viney Jones, Christine Griffiths ac Amanda Ward.

Gosodwyd blodau ar fedd Colin James Jones, sef un o hogia'r dosbarth a gollodd ei fywyd pan oedd ond naw mlwydd oed. Mae'r atgofion am

Colin yn dal yn fyw yng nghof pob un ohonom.

Wrth groesawu pawb i'r noson cyfeiriodd Bryn Jones at ambell un a anfonodd lythyr o ymddiheuriad am fethu â bod yn bresennol. Trefnwyd arddangosfa o hen luniau'r cyn-ddisgyblion, a chafwyd noson fythgofiadwy yn sgwrsio a hel atgofion. Roedd awyrgylch gyfeillgar, hapus a chlôs yn bodoli ymhlith pawb oedd yn

bresennol er nad oedd ambell un wedi gweld eu gilydd ers hydoedd.

Diolchwyd i drefnwyr y noson am y paratodau trylwyr, ac hefyd i berchenogion Gwesty Dolbadarn am drefnu'r bwffe. Lluniwyd yr englyn canlynol ar gyfer yr achlysur:

Un dosbarth sy'n aduno — hen ffrindiau
A minnau am heno,
Yn cyfarch ac yn cofio
Blasaf groeso braf ein bro.

B.J.



Trefnwyr yr aduniad yn cyflwyno'r siec i Mrs Elisabeth Roberts, prifathrawes yr ysgol.

Y STORFA LLANRUG

(Richard a Meirwen Williams)

Ffôn: C'fon 672790

Ar agor bob dydd
o'r wythnos at eich
gwasanaeth

Nid oes unrhyw dâl am
ddanfon archeb i'ch
cartref yn ardal Llanrug

Alwyn a Sarah Jones

RACCA PENISARWAUN

★ Blodau ar gyfer pob
achlysur

hefyd

★ Dewis da o Lysiau
Fferm.

★ Wyau 'Free Range'
Ar agor saith diwrnod



870605

LLYSIAU AR
GYFER PICLO

Am Wasanaeth
Fframio Lluniau
Tystysgrifau
Tapestri

am brisiau rhesymol

**ELWYN
PRITCHARD**

Parc Padarn, Llanberis

Ar agor Llun — Sadwrn

10.00 — 4.30

Ffôn: Llanberis
870922

CHWILOTA

TEULU CLAWDD LLWYD



Pan gysylltodd Mrs Mair Williams â mi ynglŷn â chysylltiad ei thad â theulu Bwlch Gwnnog, soniodd hefyd fod cangen arall o'i theulu yn hannu o'r Clawdd Llwyd, Tan y Coed. Roeddwn eisoes wedi olrhain achau nifer o aelodau o'r teulu hwn, a gallwn eu olrhain i hanner cyntaf y ddeunawfed ganrif o fewn ffiniau plwyf Llanrug. Teulu o wehyddion oeddynt yn wreiddiol ond, fel nifer helaeth o deuluoedd yr ardal, erbyn canol y ganrif ddiwethaf roedd gwaith pob un bron ynghlwm â'r chwarel lechi.

Yn 1734 priodwyd Samuel Prichard a Mary William yn eglwys Llanrug. Gwehydd oedd Samuel Prichard wrth ei alwedigaeth. Buont yn byw yn Buarthau Gwnnion, ac yn ddiweddarach yn Bryn y Clochydd. Bu Samuel Prichard farw yn 1770, ond ni nodir ei oedran. Flwyddyn yn ddiweddarach, yn 1771, priodwyd ei fab, William Samuel gydag Elizabeth Michael, a oedd tua pedair blynedd ar ddeg yn hŷn na'i gŵr. Ganed iddynt dri o blant. David William Samuel oedd y mab hynaf. Yn ddiweddarach caiff ei alw yn David Williams.

Ym meddiant Mrs Mair Williams mae Llyfr Gweddi Cyffredin a gyhoeddwyd yn 1746. O'i fewn mae llofnod William Samuel ac englyn o'i waith, dyddeidig 1786. Dyma'r englyn:

*Cofion bawb am y Caufedd — a'n bwriad
yn barod i'r Dyfnedd?*

*Rhain ryw Brud yn gydweidd
Gamp oer bwys gwymp i'r Bedd.*

Ceir 'David Williams aged 13' wedi ei sgwennu yn y llyfr hefyd, a'r dyddiad 1787. Mae hyn yn cyd-fynd â dyddiad geni David William yn 1774.

Efallai i William Samuel a'i wraig Elizabeth Michael symud i Glawdd Llwyd i fyw cyn diwedd y ganrif, ond yr oedd y ddau, a'u mab David, ei wraig Janet, a'u plant hwythau, i gyd yn byw yno erbyn 1809. Bu

Elizabeth Michael farw yno yn 1814, a William Samuel yn 1832.

Ganed i David William Samuel a'i wraig, Janet, naw o blant. Defnyddiwyd enw'r tad fel cyfenw ganddynt, sef David, a ddaeth yn naturiol yn Davies. Roedd dau o'r meibion, sef John Davies (1809-1887) a Hugh Davies yn parhau i fyw gyda'u teuluoedd yn Clawdd Llwyd yn ôl Cyfrifiad 1851. Yno hefyd roedd David Williams a'i wraig, Janet, bellach, y ddau ohonynt bron yn bedwar ugain oed. Mae David Williams yn parhau i ddisgrifio i hun fel gwehydd, ond chwarelwyr yw'r meibion. Roedd John Davies yn hen daid i Mrs Mair Williams, ac felly y daeth Llyfr Gweddi Cyffredin William Samuel i'w meddiant.

Mae'n ddiddorol nodi hefyd fod lle o'r enw Pant Du wrth ymyl Clawdd Llwyd, ar lethrau'r Cefndu. Mewn un cofnod ceir William Samuel yn cyfeirio at y Pant Du fel ei gartref. Roedd llawer o hen drigolion Tan y Coed a'r Bryngwyn yn credu fod ysbryd yn y Pant Du. Cyfeirir at hanes yr ysbryd hwn gan William Davies o'r Bryngwyn mewn traethawd o'i eiddo a anfonwyd i gystadleuaeth yng Nghylchwil Llenyddol Cyfrinfa Glanrhyddallt o'r Temlwr Da, ddydd Gŵyl Ddewi 1911. (Tybed a oedd William Davies hefyd yn hannu o Ddafisiaid y Clawdd

Llwyd?) Yn ôl William Davies, ysbryd gwraig ifanc yn cario baban marw-anedig sy'n crwydro'r Pant Du. Oes rhywrai o'r darllenwyr wedi clywed am yr ysbryd hwn? A ble'n hollol yr oedd (y mae) y Pant Du?

TAITH HANESYDDOL AR DROED

Yn ystod y mis diwethaf cefais y pleser o arwain taith Cymdeithas Edward Llwyd drwy rannau o blwyf Llanrug. Un neu ddau o drigolion y fro oedd ar y daith, ond teithiodd eraill o Fôn, Llan-sannan, Y Bala a Dolgellau i dreulio rhyw bedair awr hamddenol yn crwydro llwybrau a ffyrdd cefn gwlad yr ardal. Profodd y daith i fod yn un naturiaethol yn ogystal â blasu hen chwedlau a thraddodiadau ynglŷn â'r fro, a chnoi cil ar bytiau o hanes yr un pryd. Dilynwyd llwybrau cyhoeddus i gopa Carreg Lefain (a chael tamaid o ginio yno yn mwynhau'r golygfeydd), cyn disgyn i Bontrug a dilyn dreif Plastirion yn ôl i Lanrug. Os oes digon o ddarllenwyr â diddordeb, gallwn drefnu taith gyffelyb yn ystod y mis neu ddau nesaf. Anfonwch air, neu rhowch alwad ffôn: Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug (01286) 673515.

DOSBARTH 'ST. JOHN'S'

O dan newyddion pentref Llanrug y mis diwethaf cyhoeddwyd llun o ddosbarth St. John's y pentref tua 1929. Daeth ymateb parod gan Mrs M. G. Williams, Bethel; Mr Huw R. Jones, Bod Fair, Llanberis; Mr a Mrs John Griffith Jones, 12 Hafan Elan, Llanrug; a Mr a Mrs Harry Roberts, 2 Rhes Plas Tirion. Rhyngddynt oll cafwyd enwau pawb oedd yn y llun: *Rhes gefn (chwith i'r dde):* Ifan Hughes, Bodifor; Moi Parry, Bron Haul a Canada; Daniel Lewis, Pengraig, neu Talsarn, Crawia; Elfed Hughes, Stabla; Hugh Richard Jones, Llanberis; Hughie Green, Pandy; Ellis Ifor Hughes, Arosfa; William Jones (Willie Waun), Tegfryn; Robert

Jones, Capel Sardis, hyfforddwr y dosbarth; W. J. Williams, Llys Iolen.

Ail res (chwith i'r dde): Acsa Williams, Llain Gro; Lily Williams (Clarke yn ddiweddarach), Bryn Eryr; Laura Grace Owen, Isallt; Mrs Owen Jones, Arosfa; Mrs Jones, Tegfryn; Mrs Inigo Jones, Eilionwy.

Trydedd rhes (yn eistedd, chwith i'r dde): Nesta Roberts, Park Villa; Mrs Owen Thomas, Rhianfa; Mrs Jones, Llwyn Onn; Mrs Myfi Roberts, Rhes Plas Tirion; Dr Wynne Jones, Llanberis; Nyrs Cwm-y-glo; Lizzie Roberts, Siop y Becar; Mrs Williams, Bryn Awelon; Mrs Jones, Penrhos; Mrs Jones, gwraig Dr Jones.

Ar lawr (chwith i'r dde): Mr Williams, Bryn Awelon; John (Jack) Hughes, Stabla; Robert Williams, Bethel; Hugh Jones, Cae Poeth.

Cafodd y llun ei dynnu y tu cefn i Sefydliad Coffa Llanrug a'r capel 'Wesla' yn dangos y tu ôl. Roedd yr adeilad yn gartref i dad Mrs J. G. Jones cyn iddo gael ei newid i'r Sefydliad Coffa yn 1922. Mae o leiaf dau o'r rhai yn y llun, Mr Hugh Richard Jones, Llanberis, a Mrs Inigo Jones, Eilionwy, Llanrug, yn parhau gyda ni.

Aled Jones

Peiriannydd
Gwres Canolog
a Phlymio

4 Bryn Eglwys
PENISARWAUN
Ffôn: Llanberis
871047

Gwasanaeth o'r Safon Uchaf am Brisiau Rhesymol



Gwasanaeth Trylwyr
gan y bobl **BROFFESIYNOL**
Gwasanaeth Personol Cyfeillgar i **CHWI**
Y Gwasanaeth Technegol Gorau
i'ch **CAR**. Cystal â
Gwasanaeth Prif Ddeliwr
Felly, pa gar bynnag ydych
CHWI yn ei yrru,
o Audi i Zastava



Car neu Fan
Petrol neu Disel
Carb. neu Chwistrelliad

bydd ein Gwasanaeth
ni yn arbed £££ ichwi
ac yn ymestyn oes eich car




YSTAD CIBYN

CAERNARFON (0286) 673559



Am eich
ANGHENION
ADEILADU
mawr a bach
MASNACHWYR
A "D.I.Y."
am
BRISIAU
CYSTADLEUOL
dewch at

BRYN
(B & K Williams)



Yr Hen Ysgol
Glanmoelyn
LLANRUG
Ffôn: 677482

CWM-Y-GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: 872275

Camera yng ngofal Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug. Ffôn: 677263

Llongyfarchiadau i Veronica a Ken Williams, Glanbogelyn, ar achlysur dathlu eu Priodas Arian.

Wedi Gwella: Anfonwn ein cofion gan ddymuno gwellhad buan i Mrs Eluned Hughes, Hyfrydle, ar ôl damwain yn ei chartref.

Cydymdeimlad: Daeth profedigaeth i ran tri theulu yn y Cwm yn ddiweddar. Collodd Mrs E. Jones, Seiont House, gyfnither yn Llanrug; collodd Mrs Jean Hughes, 2 Bryn Gro, ei thad yn Y Groeslon; a daeth newydd trist iawn i ran Mrs Ellen M. Williams, Pantafon, drwy golli ei merch hynaf, sef Mrs Margaret Rose Winder, SRN, SCM, o Pen yr Heol Isaf, Bwlch, ger Aberhonddu. Gedy ŵr, Peter, a Petrina a Kieron (merch a mab-yng-nghyfraith). Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i'r teuluoedd i gyd yn eu profedigaeth a'u hiraeth.

Undeb y Mamau: Cyfarfu'r gangen yn Hafan Elan, Llanrug, ar nos Lun, 1 Mai. Cafwyd gwasanaeth byr i ddechrau'r cyfarfod. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Mrs E. Taylor a Mrs Edwards.

Cydymdeimlwyd â Mrs V. Jones yn ei phrofedigaeth o golli ei gŵr a'i chwaer.

Pasiwyd i gyfrannu £10 tuag at fwrdd arddangos yn y Gadeirlan.

Y mae noson wedi'i threfnu i gyfarfod Mrs Ann Florendine ar Fehefin 24ain am 6.30 o'r gloch yn ystafell Eglwys y Groes.

Ar ôl y pwyllgor cafwyd amser i brynu oddi ar stondin 'Moes a Phryn' a gwned elw o £56.75. Rhoddwyd y ddwy raffl gan Mrs E. Taylor ac aelodau Cwm-y-glo, ac fe'i henillwyd gan Mrs M. Williams a Mrs Taylor. Aelodau Cwm oedd yn gofalu am y lluniaeth, a diolchwyd iddynt gan Mrs Latham. Hwn oedd cyfarfod olaf y tymor. Y mae 'te a mefus' wedi'i drefnu rywdro yn ystod mis Gorffennaf. Terfynwyd trwy weddi.

Newyddion Ysgol Cwm-y-glo: Bu Miss Siân Bruce o'r Coleg Normal am fis o ymarfer dysgu yn nosbarth y Babanod. Diolch yn fawr iddi am ei hymroddiad a dymunwn y gorau iddi i'r dyfodol.

Cynhaliwyd Ffair Wanwyn yn yr Ysgol yn ystod y mis. Carem ddiolch i bwyllgor rhieni ac athrawon yr Ysgol am drefnu'r gweithgareddau. Diolch o galon i siopwyr a phrentrefwyr am gyfraniadau i'r raffl a'r gêm, ac i bawb a ddaeth i gefnogi'r noson hynod lwyddiannus. Gwnaed bron i £400 o elw i gronfa'r Ysgol.

Enillwyr Clwb yr Ysgol am fis Ebrill oedd Mrs Hilda Orritt, Cwm-y-glo, a Mrs Judith Pritchard, Brynrefail. Llongyfarchiadau iddynt.

Llongyfarchiadau i Darren, Jennifer, Keith, Michael, Arwyn, Samantha a John a fu'n cynrychioli'r Ysgol yn y Gala Nofio i ysgolion o dan 100 o blant. Llwyddasant i ennill 15 o bwyntiau i'r Ysgol.

Yng nghystadleuaeth 'Tlws yr Eco' cafodd tîm yr Ysgol hwyl dda iawn eleni. Aethant drwedd i'r gêm derfynol yng nghyngair Bl. 3/4, ond colli wnaethant yn erbyn Llanrug 'A' o un gôl i ddim. Dymuna Darren, Michael, Keith, Arwyn, Kevin, Karl, Dylan, Josh a Mathew ddiolch i Mr Gwilym Williams, Bryn, am ei gefnogaeth iddynt.

Yr Urdd: Er fod tymor yr Urdd wedi hen orffen, cafodd yr aelodau noson arbennig yn ystod y mis. Trefnodd Anti Sioned eu bod i gyd yn cael mynd i'r Ganolfan Tennis yng Nghaernarfon. Yna cawsant bryd o fwyd cyn dychwelyd adref. Mwynhaodd pawb y noson a diolchodd Clair i Anti Sioned am drefnu'r cyfan.

Siopau'r Pentref: Ar y radio, nos Sul, 21 Mai, pleser oedd gwrandao ar Maureen Rhys (Maureen Lloyd Jones gynt) yn sariad ar y testun 'Neges' gan sôn am siopau Cwm-y-glo pan oedd yn blentyn — Siop Lizzie Davies; Siop Llew Hughes; Siop Stesion, sef siop Megan Davies; Siop Eric Williams; a'r Becws.

Diolchiadau:

Dymuna Mrs Eluned Hughes, Hyfrydle, ddiolch i bawb am eu caredigrwydd, yr ymweliadau a'r galwadau ffôn a dderbyniodd ar ôl ei damwain yn ei chartref. Diolch yn fawr.

Dymuna Jean, Maldwyn a'r teulu, ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli tad tyner. Diolch am y cardiau, galwadau ffôn a'r ymweliadau personol.

Etholiad Cyngor Sir Gaernarfon a Meirionnydd: Hoffwn gymryd y cyfle hwn i ddiolch i bawb am y croeso a gefais cyn yr etholiad ac am eich cefnogaeth ar 4 Mai. Os gallaf fod o unrhyw gymorth i chwi ar unrhyw fater cofiwch gysylltu â mi ar (01286) 676733 — Charles Wyn Jones, Tyddyn Rhuddallt, Llanrug.

Cefnogwch ein
Hysbysebwy

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: Felinheli 670726

Camera yng ngofal Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl. Ffôn: (0248) 670115

Plygu'r Eco: Diolch yn fawr iawn i'r criw ddaeth i'r Neuadd i blygu rhifyn mis Mai o'r Eco. Gyda chymaint o ddwylo roedd y baich yn cael ei ysafnau yn arw. A ydi gorffen cyn 8 o'r gloch yn record?

Pen-blwydd Hapus: Dyna ddymunwn i Mrs N. Jones, Rhianfa (Nel Bach Lôn Glai), ar ddathlu ei phen-blwydd yn 80 oed ar 4 Mehefin. Llongyfarchiadau mawr.

Diolch: Dymuna Mrs Rhiannon Thomas, Fferm y Gelli, Llanddeiniolen, ddiolch yn ddifffuant i'w theulu a'i ffrindiau oll am yr anrhegion, blodau, cardiau a'r galwadau ffôn a dderbyniodd ar achlysur dathlu ei phen-blwydd yn 70 oed ar 4 Mai. Diolch o galon i bawb.

Diolch: Dymuna Tom Owen, Berwyn, ddiolch o galon am bob arwydd o gyfeillgarwch a dymuniadau da a dderbyniodd yn ystod ei arhosiad diweddar yn yr ysbyty.

Enillwyr Clwb 200 y Neuadd am fis Mai — £20: Evan Owen, Wern Las (103); £10: John H. Williams, 15 Y Ddôl (125); £5 yr un: Mrs Olwen Williams, 8 Stad Eryri (18); Wyn Morris, Y Fachell (136); Mrs Ellen Jones, Glasynys, Tan-y-buarth (212); Mrs Judith Jones, Gwelfor, Saron (61); Mrs Elinor Jones, 22 Cremlyn (139); Emyr W. Jones, Wenallt (109); Mrs Dilys Perez, Tan-y-cae (62); Mrs Gwenan Roberts, 14 Stad Eryri (135).

Merched y Wawr: Cynhaliwyd cyfarfod mis Mai yn yr Ysgol Gynradd gyda Glenys Griffiths yn llywyddu. Croesawyd y gŵr gwadd, Mr E. Gray Thomas, a chafwyd noson ddifyr yn ei gwmni, yn dngos creigiau o wahanol wledydd y byd. Diolchwyd iddo gan Mair Ellis, Alys Jones a Rhian Hughes.

I ddiweddu'r tymor bydd taith ddirgel y mis nesaf gan gychwyn o Benrhos am 6.45 p.m. Bydd pryd o fwyd ar gael ar derfyn y noson.

Aelwyd yr Urdd: Aeth pedwar ar ddeg o aelodau'r gangen am benwythnos i Wersyll yr Urdd yng Nglan-llyn, a mwynhaodd pawb y gwahanol weithgareddau. Diolch i Bethan Evans am fynd gyda'r grŵp a chadw llygaid arnynt! Bu'r aelodau hŷn yn bowlio deg yn Llandudno

gyda Jim a Wendy Ostler.

Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd: Llongyfarchiadau i Ffion Williams, Y Ddraenen Fach, Y Ddôl ar ennill yr ail wobwr yn yr Adran Fathemateg o'r adran gwaith cartref, Eisteddfod Bro Preseli. Pob hwyl i'r parti llefaru, o dan hyfforddiant Iorwerth Williams, ac i'r grŵp dawnsio disg, dan hyfforddiant Miriam Thomas.

Enillwyr Clwb 100 yr Ysgol Gynradd: £20: Iola Jones, Hafan, Rhos (8); £15: Christine Griffiths, 17 Bryn Môr, Y Felinheli (2); £10: Siân Jones, mynydd Llandegai (3); £7: Anne Pierce Roberts, Bron Iwrch, Llainffynnon, Y Groeslon (48); £5: Pat Owen, Cefn Cynrig (90). Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

Wythnos o Weithgareddau: Mae Pwyllgor y Neuadd wedi penderfynu trefnu wythnos o weithgareddau yn ystod mis Gorffennaf. Cynhelir cyfarfod yn y Neuadd ar nos Lun, 5 Mehefin, i drefnu'r wythnos. Estynnir gwahoddiad i unrhyw un sydd yn awyddus i roi help llaw i drefnu'r gweithgareddau neu yn ystod yr wythnos.

Cymorth Cristnogol: Yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol casglwyd £381.24 yn y pentref a rhagwelir fod ychydig eto i ddod i mewn. Os oes rhywun yn dymuno cyfrannu ac heb gael cyfle hyd yma, mae croeso i chwi fynd a'ch cyfraniad i Mrs Beti Owen, Crud yr Awel.

Newyddion o'r Ysgol Gynradd: Fore Mawrth, 9 Mai, ymwelodd Emily Huws â'r Ysgol i gael sgwrs â phlant yr adran iau am ei llyfrau a'i diddordebau. Mwynhawyd orig ddifyr iawn yn ei chwmni'n sôn am ei chymeriadau Rhian Haf ac Wmffra'r Ci.

Fel rhan o'u gwaith y tymor yma ymwelodd yr adran iau â Chaer Rufeinig Segontium, gan gael cyfle i gyffwrdd rhai o'r creiriau hanesyddol a bu rhai yn ddigon lwcus i gael gwisgo arfwisg Rufeinig.

Bu plant dosbarth Mrs L. P. Roberts Williams ar ymweliad â Castell Penrhyn, pryd cawsant gyfle i ymweld ag ysgol o'r ganrif ddiwethaf; llunio papur wal fel William Morris; a smwddio a golchi'r cyfnod.

GWASANAETH TACSI
HURIO BWS MINI
CABS LLANRUG

Ffôn: Caernarfon

675951

Prisiau Cystadleuol — Gwaith Contract — Pell ac Agos

Gwesty
Dolbadarn

LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser Aneuryn Jones a'r staff.

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri. Ffôn: 870491

Camera yng ngofal John Pritchard, Cilfynydd. Ffôn: 872390

Cymorth Cristnogol: Yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol cynhaliwyd gwasanaeth undebol yn Eglwys Sant Padarn. Yr oedd aelodau o'r gwahanol eglwysi yn cymryd rhan yn yr oedfa. Arweiniwyd y gwasanaeth gan y Parchg John Pritchard a phregethwyd gan y Parchg Philip Hughes. Mr Gareth Jones oedd yr organydd. Bu rhai o aelodau'r eglwysi yn casglu arian o dŷ i dŷ at Gymorth Cristnogol yn ystod yr wythnos.

Capel Coch: Llongyfarchiadau i blant yr Ysgol Sul a gafodd wobwr yn y Gymanfa a gynhaliwyd yng Nghapel Cefnwaun, Deiniolen, ar 7 Mai: Bethan, Elin, Michelle, Sioned, Carys, Alaw, Gwen, Rhiannon, Sara Parry, Sara Jones, Laura, Ian, Dafydd Evans, Tomos, Joseff, Llion, Carwyn, Gruffudd, Daniel, Llifon, Iwan, Mathew, Gethin, Dafydd Siôn, a Stuart.

Cymdeithas Eglwysi St. Peris a St. Padarn: Nos Iau, 4 Mai, bu cyfarfod yn Eglwys St. Padarn gyda'r Rheithor, y Parchg Philip Hughes, yn arwain y rhan ddefosiynol. Croesawyd yr aelodau ynghyd a dwy aelod newydd gan y Cadeirydd, Mrs Ann Parry-Jones.

Y wraig wadd oedd Mrs Catherine Jones, gynt o Lanberis ond bellach yn fwy adnabyddus fel cynbrifathrawes Ysgol Pendalar, Caernarfon. Cafwyd orig ddiddorol a hapus iawn yn ei chwmni gyda'i hatgofion a hanesion doniol a throeon trwstan tra yn gweithio gyda'r plant a'r pobol ifanc.

Cydymdeimlwyd â dwy aelod oedd wedi colli anwyliad agos yn ystod y mis, sef Mrs Nellie Morris a Mrs Clara Roberts.

Mrs Kathleen Williams a Mrs Clara Roberts oedd yn gyfrifol am y te a'r raffl, a Mrs Jean Roberts oedd yr enillydd. Diolchwyd i Catherine ac i'r gwestwagedd yn gynnes gan y Parchg Gwynfor Williams.

Cyfeillach Capel Jerusalem: Yng nghyfarfod mis Mai, o dan lywyddiaeth Mr Hugh R. Jones, cafwyd sgwrs ddiddorol gan Mr Gwynfor Roberts, Capel Nant Padarn. Rhannodd â ni rai o'r profiadau a gafodd yn ystod ei ymweliad â Seland Newydd ac Awstralia. Yn dilyn y sgwrs cafwyd trafodaeth fywiog a lluniaeth a ddarparwyd gan

chwiorydd y Gyfeillach. Cynhelir cyfarfod nesaf o'r Gyfeillach am 2 o'r gloch dydd Mawrth, 6 Mehefin, pryd y ceir sgwrs gan Mrs Laura Davies ynglŷn â'i hymweliad â'i merch ym Mhacistan.

Yr Urdd: Trefnir trip diwedd tymor ar gyfer y plant eleni eto. Byddwn yn mynd i'r Ganolfan Bowlio Deg yn Llandudno. Aelodau'r Adran fydd yn cael dod ar y trip wrth gwrs.

Diolch i'r rhai a fu'n brysur efo'r plant drwy'r flwyddyn; cafwyd help rhai o athrawon yr ysgol, Mrs Elisabeth Roberts, Mrs Nan Humphreys, Mr Rhys ab Elwyn a Mr Bryn Williams.

Diolch hefyd i Elaine Evans, Jane Jones, Anne Hughes, Gwenda Harding, Heather Jones, Carys Morris ac Ann Jones am ofalu am y cyfarfodydd trwy'r tymor.

Yng nghyfarfod ola'r tymor bu'r plant yn ymarfer ar gyfer Mabolgampau'r Cylch a gynhaliwyd yng Nghaernarfon. Cafwyd hefyd noson o chwarae rownderi yng ngofal Jane O'Donnell a John Pritchard.

Nofio: Llongyfarchiadau i Ceri Jones, Garfield House, am fod yn llwyddiannus mewn cystadleuaeth nofio a drefnwyd gan Gynghrair Arfordir Cymru yn y Rhyl yn ddiweddar. Cafodd Ceri, sy'n wyth oed, fedal arian am ddod yn ail yn y ras pili-pala. Bu'n llwyddiannus mewn dwy ras arall hefyd gan gyrraedd y rowndiau terfynol gan orffen yn y chweched



Ceri yn dangos ei medal.



Trefnodd aelodau Lleisiau Lliwedd barti i Mrs Jane Jones, Peris View, ar noson ei phen-blwydd yn 80 oed. Yn y llun gwelir Mrs Mattie Hughes yn cyflwyno rhodd a blodau i Mrs Jones.

safle yn y rasmus rhydd a broga. Da iawn ti, Ceri.

Pêl-droed Ieuencid: Mae'r tîm dan 13 oed wedi cael tymor llwyddiannus dros ben eleni yng Nghynghrair NatWest Gwryfai. Hogia Llanberis oedd pencampwyr Adran Gyntaf yn Gynghrair a hwy hefyd enillodd Cwpan Coffa 'Rice'. Yn ystod y tymor, chwaraewyd 16 o gêmiau gan ennill 12 a chael 2 gêm gyfartal. Dim ond dwy gêm a gollwyd drwy'r tymor. Sgoriwyd 55 gôl ac ildwyd 23 gôl. Y prif sgorwyr oedd Rory O'Donnell gyda 22 gôl a Daniel Fletcher gyda 19 gôl. Mae'r bechgyn yn haeddu pob clod. Maent i gyd yn byw yn Llanberis a buont yn chwarae yn erbyn timau cryfion o ardaloedd eraill. Dyma aelodau'r garfan yn llawn: Martin Watkinson, Darren Owen, Gareth Jones, Evan Williams, Chris Carr, Lee Hughes, Martin Willis, Chris Allsop, Alwyn Jones (y capten), Christy Boothroyd, Rory O'Donnell, Daniel Fletcher, Owain Morris, Marcus Orlick ac Ian Jones. Llongyfarchiadau i'r bechgyn ac i'w hyfforddwr, Emllyn Hughes, Coed y Glyn, sydd wedi rhoi blynyddoedd o wasanaeth erbyn hyn i dimau ieuencid y pentref.

Mae'r tîm dan 11 oed wedi cael tymor prysur hefyd. Roedd gan y gîm hwn 26 o gêmiau cynghrair yn ystod y tymor. Gorffennwyd yn y pedwerydd safle y gynghrair. Tipyn o gamp oedd hi i Gwilym Evans, Tŷ Crwn, yr hyfforddwr, roi gêm i bob un o'r plant. Roedd ganddo dros

ddeunaw o blatin i'w ffitio i dîm 7-bob-ochr. Trefnwyd ambell i gêm ar gyfer y plant dan 9 oed, a chafodd y tîm hwnnw gryn hwyl arni hefyd. Yn y gêm olaf roedd ambell un 5 oed yn chwarae, sy'n arwydd o reolwr yn paratoi yn gynnar ar gyfer y dyfodol. **Ar y Radio:** Pleser oedd cael clywed Mrs Dilys Baylis, Meirionfa, yn siarad â Hywel Gwynfryn ar y radio y dydd o'r blaen. Bu'r ddau yn sgwrsio am y pleser a gaiff Mrs Baylis wrth gyfansoddi neu gyfieithu emynau. Yr oedd hi wedi cael ei henwebu i siarad ar raglen Hywel Gwynfryn gan ei brawd, Edwin Lloyd Jones, Caerdydd.

Carnifal: Bydd Carnifal Blynyddol Llanberis yn cael ei gynnal ddydd Sadwrn, 15 Gorffennaf. Bydd wythnos lawn o weithgareddau yn cael ei chynnal fel arfer cyn diwrnod y Carnifal. Mae'r pwyllgor wedi bod yn brysur yn paratoi rhaglen amrywiol eleni eto. Mae'r Carnifal yn achlysur o bwys yn yr ardal ers blynyddoedd bellach, a dymunwn yn dda i'r pwyllgor brwdfrydig am wythnos lwyddiannus arall. Bydd Côr Ardudwy a Rosalind a Myrddin yn cymryd rhan yn y Noson o Gân ar nos Sul, 9 Gorffennaf. Agorir y Carnifal ei hun gan Mari Rowland Huws. Brenhines y Carnifal eleni yw Leona Lloyd, a'r morynion yw ei chwaer Kirsty, a Gwen Williams. Richard Jones yw'r macwy. Ceir manylion llawn am y gweithgareddau yn rhifyn nesaf o'r Eco.



Gwen, Kirsty, Leona a Richard.

Made to Measure



Llenni, Gorchuddion Llac
Ffril wedi'i blethu
(bocs)

a Chlustogau
gyda zip

Amcanbris
am ddim

BANGOR

(01248) 364493

unrhyw adeg

Cronfa Goffa R. H. Owen: Cynhaliwyd pwyllgor Ymddiriedolwyr y Gronfa yn Festri Nant Padarn, nos Lun, 22 Mai, dan lywyddiaeth Mr Ieuan Ellis Jones. Estynnwyd croeso i Mr Ralph Jones, Taliesin, Stad Preswylfa, i'w gyfarfod cyntaf ers cael ei ethol yn un o Ymddiriedolwyr y Gronfa. Mae hysbyseb yn y rhifyn hwn o'r Eco yn gwahodd ceisiadau am gymorth o'r Gronfa eleni.

Dymuno'n Dda: Dymunwn yn dda i Eifion, mab Mrs Elizabeth a'r diweddar Stan Griffiths, 23 Dôl Elidir sydd yn mynd i Angola gyda'r Fyddin.

Enillwyr Clwb Ffrindiau Ysgol Dolbadarn am fis Mai — £35: Ifan Thomas, Maes Padarn (91); £25: Mrs M. Lynn Carr, 86 Maes Padarn (57); £15: Mrs Y. Jones, Maenol, Caernarfon (12); £10: Mrs A. Morris, Rhes Efrog (112); £5: W. G. Allsup, 7 Stryd Ceunant (16).

Enillwyr mis Mehefin — £35: Mrs D. Williams, 18 Ffordd Tŷ Du (20); £25: Mrs O. Lambrecht, 65 Maes Padarn (192); £15: M. Price, 28 Dôl Elidir (36); £10: W. Roberts, Hyfrydle (141); £5: Miss K. Jones, Rallt Goch (99).

Ysgol Dolbadarn: Bu plant dosbarth Mr ap Elwyn yn aros yn yr Hen Ysgol yn Rhyd-ddu am dridiau. Cafod dosbarth Mr Williams fynd i Barc Padarn i gynllunio gardd pili-palas, a gweithiodd pawb yn galed i blannu coed yno. Mae peth o waith y plant wedi cael ei arddangos yn Ysbyty'r

Chwarel. Ymwelodd dosbarth Mrs Pierce a Mrs Humphreys â'r chwarel fel rhan o'u gwaith thema.

Bu Mr Len Jones yn yr Ysgol yn tynnu lluniau'r plant unwaith eto. Bu rhai o'r plant yn cymryd rhan mewn Gala Nofio yng Nghaernarfon. Enillwyd y ras gyfnewid i'r plant iau yn rhwydd, a gorffennodd yr Ysgol yn y pedwaredd safle yn y Gala.

Cafwyd cyngerdd llwyddiannus yng nghwmni Hogia'r Wyddfa a Dei Williams, Tremeirchion, yng Ngwesty Dolbadarn, nos Sadwrn, 27 Mai. Diolch i bawb a gefnogodd y noson. Gwnaed elw o £400 i Gronfa'r Ysgol. Cofiwch am yr Ocsiwn Addewidion sydd i'w chynnal yn yr Ysgol nos Wener, Mai 23.

Diolchiadau:

Dymuna Mair Coed ddiolch o waelod calon i'r meddygon, staff y Clinic, ac i bawb am yr holl anrhegion a'r cardiau a dderbyniodd ar ei hymddeoliad.



Sonia a Lowri yn brysur yn plannu coed.

OCSIWN ADDEWIDION

Cynhelir Ocsiwn Addewidion yn Ysgol Dolbadarn am 7 o'r gloch, nos Wener, 23 Mehefin, o dan nawdd Ffrindiau'r Ysgol.

Estynnir gwahoddiad i bawb i'r Ocsiwn. Dowch i gefnogi'r Ysgol trwy gynnig prynu'r nwyddau a'r gwasanaethau fydd ar werth. Dyma rai enghreifftiau:

- ★ Llun o Ryan Giggs neu Eric Cantona wedi ei arwyddo'n bersonol.
- ★ Tocynnau Rheilffordd y Wyddfa, Rheilffordd Llyn Llanberis, Pili Palas, ac atyniadau eraill.
- ★ Ymweliad i deulu â Gorsaf yr Awyrlu yn y Dyffryn (Fali).
- ★ Prydau bwyd mewn bwytai moethus.
- ★ Llafur garddwr, gof, saer, trydannwr.
- ★ Cyfle i hedfan neu ddysgu chwarae golff.

Dowch i'r Ocsiwn a chynnig prynu'r rhain a llu o bethau eraill.

Os oes gennych rywbeth i'w werthu, nwyddau neu addewid am awr neu ddwy o waith, cysylltwch â'r Ysgol ar unwaith neu â threfnydd yr Ocsiwn, John Pritchard, Cilfynydd, Llanberis (01286) 872390.

Dymuna Mrs Jane Jones, Peris View, ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur dathlu ei phen-blwydd, a diolch yn fawr iawn i Lleisiau Lliwedd am y parti ardderchog. Diolch yn fawr iawn i bawb.

Dymuna'r Cyngorydd Noel Davies ddiolch o galon am y gefnogaeth yn yr Etholiad yn ddiweddar. Mae'n addo parhau i wneud ei orau i wasanaethu pobl Llanberis ar y Cyngor newydd.

Dymuna Gwyneth a Jac Clarke ddiolch yn fawr i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am yr anrhegion, cardiau a galwadau ffôn ar achlysur dathlu eu priodas aur yn ddiweddar. Diolch yn fawr iawn.

Dymuna Arfon Phillips, 9 Coed y Glyn, ddiolch i'w deulu, cymdogion a ffrindiau am bob arwydd o garedigrwydd a ddangoswyd tuag ato tra yn yr ysbyty yn Manceinion, ac wedi iddo ddod adref. Diolch yn arbennig am y llu galwadau ffôn, cardiau ac anrhegion a dderbyniwyd. Diolch yn fawr.

Dymuna Gavin Carr a'r teulu ddiolch yn fawr iawn i bawb am eu caredigrwydd a ddangoswyd ato tra bu yn Ysbyty Gwynedd ac Ysbyty Lerpwl.

Dymuna Morfudd Jones, Erw'r Coed, ddiolch o galon i'w chymdogion, ffrindiau a'r holl ardal am y dymuniadau da, cardiau, galwadau ffôn, a'u haelioni iddi tra yn yr ysbyty yn ddiweddar, ac ar ôl dod adref. Diolch yn fawr iawn.



Plant dosbarth Mr Williams yn barod i gychwyn ar eu gwaith.

PLAID CYMRU

DYLAN a NEIL

(Traed Wadin)

Nos Fercher, Mehefin 7
yng Ngwesty'r Padarn Lake
Mynediad £2

Tocynnau ar gael
yn y gwesty neu wrth y drws
ar y noson.

CYFARFOD

CYFFREDINOL

ail sefydlu Cangen Llanberis

Nos Iau, Mehefin 8

yn y Ganolfan, Llanberis

Byddwn yn arbennig o falch
o groesawu aelodau newydd.
Dewch yn llw.

Royal Victoria Hotel

LLANBERIS

Mae'r gwesty yn darparu ar gyfer Priodasau, Partïon, Dathliadau ac Achlysuron Arbennig

Cyfleusterau Cynhadleddau a Phwyllgorau

Bwydlen Bar a Chinio Dydd Sul

Cwrw Felin Foel

Ffôn: Llanberis 870253

E. W. Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: 870202 a 870272

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

Llythyr o Brunei...

Annwyl Ddarllenwyr,

Wel, sut hwyl sydd yn yr hen wlad?

Popeth yn iawn gobeithio, a'r tywydd wedi hen ddechrau cynhesu erbyn hyn! Allan yma yn Brunei mae'r tywydd yn boethach nag erioedd. Y tymheredd, ar gyfartaledd, yn 35°C ac yn stormydd gwyllt bron bob nos, gyda'r glaw yn pistyllio i lawr nes gwneud y gerddi yn byllau nofio o fewn dim. Erbyn canol dydd y diwrnod canlynol bydd yr haul tanbaid wedi llwyddo i sugno pob diferyn allan o'r tir. Dyna'r patrwm yma bellach ers tua mis, er nad yw hi i fod yn dymor glawog yma tan fis Medi!

Rwyf wedi bod yn brysur iawn yn ddiweddar ac felly dyna'r esgus dros beidio â chadw mewn cysylltiad cyhyd! Un rheswm dros hyn oedd i Mam a Dad a Rhiannon, fy ffrind, ddod drosodd yma i Brunei dros Wyl y Nadolig am bythefnos.

Dwi'n credu i'r tri ohonynt gael amser da yma, er yr holl deithio a wnaethom o le i le. Dau ddiwrnod yn Singapore i ddechrau yn ymweld â Gwesty Raffles a chael Singapore Sling neu ddau, yn ogystal â siopa a gwledda, a.y.y.b.

Hedfan wedyn i lawr i Kuching, sydd yng ngwaelod Sarawak ar Ynys Borneo, er mwyn cael treulio ychydig ddiwrnodau yn blasu rhai o draddodiadau amrywiol y trigolion hynny. Roedd Dad wedi gwirioni efo'r trigolion yno ac roedd Mam yn dechrau poeni y byddai'n well ganddo aros yno gan fyw mewn tŷ hir efo'r Ibaniaid yn hytrach na dod gartref! Bu'r tri ohonynt hefyd ar lwyfan o flaen cannoedd o bobl yn perfformio dawnys yr Horn Bill, sef dawnys draddodiadol yr Ibaniaid. Roedd y tri yn ei gweld hi'n rhyfedd deffro ar fore'r Nadolig a hithau mor gythreulig o boeth. Profiad newydd hefyd oedd cael cinio 'Dolig go wahanol i'r twrci traddodiadol a gawn adref.

Wedi wythnos yn Kuching dyma hedfan am Brunei. Buom yn ymweld â phalas enwog y Sultan, a'r cynifer o Mosques drudfawr sydd yno, a chymharu'r tlodi'r Pentref Dŵr (Kampong Ayer) sydd wrth law.

Roeddwn yn hynod falch fod y tri ohonynt wedi cael cyfle i ddod i adnabod fy ffrindiau Iban sydd yn byw yn Brunei, a da oedd gweld y cyfnewid anrhegion a fu rhyngddynt. Inja a Selamat yn gwirion ar gael anrhegion o Gymru, a'r tri ymwelydd o Gymru yn dra balch o dderbyn anrhegion traddodiadol Ibaniaid hefyd.

Erbyn hyn mae'r Nadolig wedi hen fynd heibio ac rydym yng nghanol mis Mai. Dros wyliau'r Pasg dyma deithio unwaith eto. Y tro hwn i ynys fechan Sri Lanka (Ceylon gynt). Gwlad eithriadol o hyfryd o ran tirwedd, a hwnnw yn amrywio o le i le.

Cychwyn ein gwyliau yn Colombo, sef y brifddinas, ond ni fu'r arhosiad yn un hir gan mor fudr a phrysur oedd y lle. Felly, dyma gychwyn i lawr yr arfordir am y traethau euraid. Ychydig ddyddiau wrth draeth Hikkadua, ac yna cychwyn am dref Kandy — taith wyth awr mewn hen ran rhacslud — a phan gyrhaeddodd pen y daith roedd yna storm o fellt a tharanau i'n croesawu, a'r glaw yn pistyllio i lawr o'r nen.

Mae tref Kandy yn ddiddorol iawn, a thra roeddem yno buom yn dathlu'r flwyddyn newydd Sinhalese. Sinhalese ydi'r rhan helaethaf o bobl Sri Lanka, gyda'r lleiafrif yn Tamils. Hwyrach i chi glywed ar y newyddion am y trwl yn Sri Lanka rhwng y llywodraeth a'r Tamil Tigers. Yn ôl y trigolion Sinhalese, mae'r Tamil Tigers am i'r trigolion Tamil yn y wlad gael mwy o hawliau, e.e. sut i redeg y wlad, a.y.y.b.

Mae'r rhan fwyaf o'r trigolion Tamil yn byw i fyny yng ngogledd Sri Lanka ac o'r herwydd, cadw'n glir o'r ardal honno oedd y peth callaf i'w



wneud. Wedi dweud hynny, pan gyrhaeddodd Nura Elyah, sef prif le tyfu te y wlad, yn yr ucheldir, diddorol oedd clywed mai trigolion Tamil ydi'r rhan fwyaf o'r gweithwyr (merched) sy'n hel yr holl ddail te yma. Maent yn cael cyflog o ddeugain punt y mis, yn ôl y ferch a fu'n ein tywys o amgylch y ffatri, er nad wyf yn ei choelio gan fod hynny yn gyflog reit uchel i unrhyw weithiwr yn Sri Lanka. Tra'n aros mewn gwesty yn Nura Elyah gofynnais i rai o'r gweithwyr yno faith oedd eu cyflog misol nhw ac roeddynt ar gyfartaledd yn derbyn deugain a phump punt y mis, felly, anodd yw credu bod y merched te a welsom allan yn y caeau hynny

yn cael yr un cyflog â'r bobl hynny sy'n gweithio mewn gwesty mawreddog.

Wrth inni ymadael â Sri Lanka clywsom fod y trwl wedi ail-ddechrau i fyny yn y gogledd a bod dwy awyren y fyddin wedi cael eu sawethu i lawr.

Gobeithio'n wir na fydd y trwl yn parhau gan fod y wlad yn un sy'n werth ymweld â hi, er ei bod yn wlad reit ddrud i ymwelwyr! Un pris i'r trigolion pan yn ymweld â rhywle neu brynu nwyddau, ond beth bynnag DDEG gwaith y pris i ymwelwyr! Hwyrach y gallwn ni yng Nghymru ddysgu rhywbeth allan o hyn!

HWYL,
DELYTH

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: 679501 (gwaith), 677438 (cartref)

Tŷ'r Ysgol: Mae Cyngor Bwrdeisdref Arfon wedi gofyn caniatâd gan y Swyddfa Gymreig i wrthu Tŷ'r Ysgol (ar lôn Pontrug) am lai na'r gwerth a roddwyd arno gan y Prisiwr Dosbarth, sef £30,000. Y cynnig uchaf a dderbyniwyd yw £25,000.

Gwasanaethau'r Capel: Disgwylir y canlynol i wasanaethu yn ystod yr wythnosau nesaf:

MEHEFIN:

- 4. Parchg W. R. Williams (2)
- 11. Parchg Huw Jones (2)
- 18. Parchg W. R. Williams (10)
- 25. Cyng. Albert Jones (2)

GORFFENNAF:

- 2. Parchg H. Jones Parry (2)
- 9. Parchg W. R. Williams (10)

Tynfa Misol: Enillwyr mis Mai, er budd Cymdeithas y Cae Chwarae, oedd — £40: Hywel Evans, Garej Caeathro (29); £25: Geraint a Zonia Bowen, Stad Glandŵr (12); £15: Sally Harris, Garreg Lwyd (58); £5: Geraint Owen, 17 Tai Glangwna (45).

Derbyniodd y Cyng Albert Jones a'r Cyng Bob Owen eu swyddi fel ymddiriedolwyr y Cae Chwarae.

Etholiad Cyngor Cymuned: Etholwyd Albert Jones a Bob Owen i gynrychioli'r Ward ar Gyngor Cymuned Waunfawr. Pob lwc iddynt wrth geisio sefydlu llecyn chwarae i'r plant lleiaf a sicrhau fod holl wasanaethau'r Cyngor Sir a Chyngor Dosbarth yn cael eu darparu'n iawn.

Emyr Jones

PLYMAR A PHEIRIANNYDD
GWRESOGI


Cynnal boileri nwy,
olew, tanwydd solat
a thredio peipiau

44 Glanffynnon
LLANRUG
Caernarfon 673513



GWYN JONES
FFENESTRI ERYRI
GWARth ISAF, LLANRUG
(01286) 650760

★ Ffenestri ★ Drysau ★ Drysau Patio
★ Porches ★ Byrddau Ffasia



★ Cladio
★ Conserfateris
12 MLYNEDD O
BROFIAD YN Y MAES

Gwynedd Hotel
& Restaurant
Llanberis 870203

Ar agor trwy'r flwyddyn ar gyfer priodasau, dathliadau bedydd, pen-blwydd a phob achlysur arbennig arall. Gallwn drefnu adloniant - disgo a.y.y.b. Bwydlen Bar a Restaurant Cinio Dydd Sul

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr

Gwasanaeth Coffa: Cynhaliwyd gwasanaeth ger y Gofeb fore gwener, Mai 5, ar achlysur cofio diwedd y rhyfel yn Ewrop hanner can mlynedd yn ôl. Cymerwyd rhan gan blant yr ysgol leol o dan arweiniad Mrs Eryl Thomas, y brifathrawes. Gosodwyd torch ar ran y Cyngor Cymuned gan ddau o blant yr ysgol, sef Ieuan Parry a Timothy Gosset, wryon y diwedd Hugh Parry, a ymladdodd yn ymgyrch Burma. Gosodwyd blodau hefyd gan ddwy o ferched yr ysgol. Talwyd diolchiadau i'r plant ac i Mrs Thomas, ac hefyd i'r Cyng Gwilym O. Williams a drefnodd y gwasanaeth, gan Mr O. T. Jones ar ran y cyn-filwyr. Roedd nifer dda o'r pentrefwyr yn bresennol yn ogystal.

Diolch i'r Etholwyr: Mae'n bleser arbennig gennyf ddiolch o galon i bawb a bleidleisiodd i mi yn yr etholiad i'r Cyngor Unedol newydd. Gwnaf fy ngorau i wasanaethu pob etholwr hyd eithaf fy ngallu dros y pedair blynedd nesaf. Byddaf yn cynnal Cymorthfa yn y Ganolfan ar nos Wener olaf o bob mis, rhwng 5 a 6 p.m., gan ddechrau ar nos Wener, 30 Mehefin.

CYNGHORYDD EURIG WYN

Cydymdeimlo: Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf i Mr Bob Ackers, Môn Abri yn ei brofedigaeth o golli ei fam.

Yn yr Ysbyty: Anfonwn ein cofion cynnes a'n dymuniadau gorau am wellhad buan i Mrs H. Parry, Bro Waun, sydd yn yr ysbyty.

Croeso Adref o'r Ysbyty i Mrs Rhian Jones, Tref Eilian. Rydym yn falch ei bod wedi gwella a chryfhau ar ôl cyfnod yn yr ysbyty. Gobeithiwn y byddi'n dal i wella Rhian, ac y gwelwn di allan yn ein plith yn fuan.

Croeso o'r ysbyty hefyd i Mrs Idris Owen, Stad Tŷ Hen.

Llongyfarchiadau

Dathlu Pen-blwydd: Yn ystod mis Mai bu Delyth Jones, Cynant Lodge, a Kaylie Jones, Cynefin, yn dathlu cyrraedd eu 18 oed. Llongyfarchiadau i'r ddwy ohonoch a phob dymuniad da i'r dyfodol.

Dathlu Pen-Blwydd Priodas: Dymuniadau gorau i Mr a Mrs Gwynedd Williams, Bro Waun, ar ddathlu eu Priodas Rhuddem yn ddiweddar.

Genedigaeth: Llongyfarchiadau i Linda a John, Bro Waun, ar

enedigaeth merch fach, Eryl, chwaer fach i Louise.

Llongyfarchiadau i Geraint a Barbara Griffith, Bro Waun, ar ddod yn daid a nain. Ganwyd merch fach, Sioned Angharad, i'w merch Mandy a'i gŵr Ceirion, chwaer fach i Owain Taliesin.

Daeth Trefor a Mildred Beech, Bronallt, yn daid a nain am yr eildro. Ganwyd merch i'w mab, Clive, a'i wraig Nerys, yng Nghaernarfon.

Llongyfarchiadau i Mrs N. Roberts, 25 Tref Eilian, ar ddod yn hen nain — ganwyd merch i'w hwyr, Clive a'i wraig, yn Llanrug.

Cychwyn Swydd gyda'r Antur: Dymunwn yn dda i Menna Jones sydd wedi cychwyn ar ei swydd fel prif weinyddwraig yn yr Antur.

Ymddoliad: Dymunwn yn dda i Goronwy Pierce, Nant Bach, ar ei ymddoliad o'i swydd gyda Bwrdd Dŵr Cymru.

Damwain: Mae'n rhyfedd gweld un a fu'n gwibio heibio ar ei beic, gan helpu trigolion y pentref, yn hopian ar ddwy fagl o amgylch y lle, ond dyna fu hanes Carys Jones, Tref Eilian. Fe drôdd ei throed yn eitha drwg wrth ddod adref o un o gyfarfodydd MENCAP yn ddiweddar. Brysia wella Carys.

Diolchiadau:

Dymuna Manon a Neil, Tref Eilian, ddiolch i'w teulu, cymdogion a ffrindiau am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniasant ar achlysur eu dyweddïad yn ddiweddar.

Dymuna Delyth Mai, Cynant Lodge, ddiolch i'w theulu, cymdogion a'i ffrindiau am y dymuniadau da, y cardiau, anrhegion ac arian a dderbyniodd ar yr achlysur o ddathlu ei phen-blwydd yn ddeunaw oed. Diolch yn fawr.

Llwyddiannau Cerddorol: Llongyfarchiadau i Ifan Glyn, Plas Bod-hyfyd, ar lwyddo gyda theilyngdod yn arholiad piano, gradd 2; ac i Steffan Elidir, Steimar, ar lwyddo yn yr un arholiad.

Llwyddiannau Eisteddfodol: Bu Meira Turner, Collfryn; Alun Williams, a Humphrey Jones, yn llwyddiannus iawn mewn amryw o eisteddfodau'r cylch yn ystod y misoedd diwethaf. Llongyfarchiadau i chi.

Yr Urdd: Yn ystod y mis rydym wedi bod yn ymarfer ar gyfer Mabolgampau Cylch Arfon. Diolch i



Tecwyn Evans, trefnydd yr Helfa Drysor yn cyflwyno tlws i'r enillydd, Shirley Parry.

Carolyn Davies am bob cymorth. Llongyfarchiadau i holl blant a fû'n cystadlu.

Dydd Gwener, 19 Mai, aeth naw aelod o'r Adran am benwythnos i Glan-llyn. Cawsant amser wrth eu bodd. Diolch i Rhian Evans am fod mor barod i fynd efo'r plant eto eleni.

Cyfeillion Ysgol Waunfawr: Nos Wener, Mai 12, roedd Cyfeillion Ysgol Waunfawr wedi trefnu Helfa Drysor. Dechreuodd 15 o geir o'r Ganolfan a rhai ohonynt gyda dipyn mwy o syniad na'r lleill! Ond cafodd pawb ddigon o hwyl a chanfod eu ffordd i'r Mount Pleasant, Dinas. Yr

enillwyr oedd Shirley a'i chriw. Aeth y wobwr gysur i Caroline — mae'n rhaid bod y Waun wedi creu dipyn o argraff arni gan iddi golli'i ffordd yn Rhosgadfan, neu ai wedi cael gwneud dy wallt yr oeddet ac ofn gwlychu! Yn lle teithio cyfanswm o 6.7 milltir fe lwyddodd y teulu Patchet i deithio 12 milltir! Llongyfarchiadau i Nia Elin am gael gwobr i blant dan 6 oed; ac i Mari, o Gaernarfon, i blant dros 6 oed.

Dymuna'r pwyllgor ddiolch i bawb am eu cefnogaeth ac i Tecwyn Evans am drefnu noson mor ddifyr.



Tecwyn Evans yn gwneud yn saff bod Caroline yn 'deilwng' o'r wobwr gysur.

Wavell Roberts
CIGYDD
London House
LLANRUG


Ffôn: C'fon 673574

PEN CIGYDD Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref, cigoedd parod
i'w bwyta

Archebion ar gyfer y rhewgist
MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD
CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR
Ffôn/ffacs: 650291



Dewis eang o
Welyau a '3P/Suites'.
Lleni 'Venetian' a Llenni 'Roler'
5,000 llathen sgwâr o garpedi
mewn stoc — allwch chi
fforddio prynu o batrymau?

GLANHAU CARPEDI GYDA STIMVAK

Ar Agor
9-7pm
9-5pm Sadwrn
Ar Gau
Sul a Mercher



ORIEL
PLAS
GWYN

Pontrug, Caernarfon

Gwasanaeth Fframio Lluniau
o bob math ar gael ar y safle


Prisiau Rhesymol

Arddangosfa o luniau
gwreiddiol gan Artistiaid Lleol

Ar ffordd A4086

Caernarfon — Llanberis
Ffôn/ffacs: 0286 672619
Richard S. Humphreys

FFORDD NEWYDD I BEN Y WYDDFA



Ar dudalen flaen y rhifyn hwn cafwyd hanes canmlwyddiant 'Enid'. Ond nid dyna'r unig ddigwyddiad o bwys yn hanes Rheilffordd y Wyddfa y dyddiau hyn. Ganol mis Mai cyrhaeddodd trên newydd sbon orsaf y cwmni yn Llanberis. Ac mae'r trên newydd yn gwbl wahanol i ddim a welwyd ar y lein fach yn ystod y can mlynedd diwethaf.

Trenau stêm, wrth gwrs, fu'n gwrthio'r cerbydau i ben y mynydd am ran helaethaf y cyfnod hwnnw. Yn fwy diweddar gwelwyd trenau disl yn ymuno â'r hen drenau traddodiadol. Trên disl-electrig yw'r trên newydd, a'r hyn sy'n ei wneud yn gwbl wahanol yw mai un cerbyd ydyw yn hytrach na'r injan a cherbyd a welwyd ar y lein o'r dechrau.

Mae'r car-rheilffordd newydd yn dal dwywaith cymaint â'r cerbydau arferol, a golygfa go wahanol fydd gweld hwn yn ymlwybro o Lanberis i ben y mynydd yn ystod tymor prysur yr haf. Cyn bo hir bydd dau gar-rheilffordd arall yn cyrraedd Llanberis. Disgwylir y byddant yn

cario teithwyr unwaith y bydd y profion angenrheidiol wedi eu cwblhau.

I RHIANNON THOMAS

Gelli Farm, Llanddeiniolen
ar achlysur ei phenblwydd
yn 70 oed

Mae'n hyfryd yn y gwanwyn
A'r tywydd braf gerllaw
A'r adar bach yn canu
Ar ôl y gwynt a'r glaw
A chanu wnawn i Rhiannon
Yng nghanol tywydd teg
A hithau erbyn heddiw
Yn cyrraedd ei saith deg.

Mae Rhiannon yn arbennig
Fe glywais lawer tro
Yn expert gyda'r godro
Di-ail am fagu llo
Mae graen o hyd i'w weled
A'r lle yn hollol glir
Mae'n gwybod am amaethu
Mae hi o frid y tir.

Dyw merched erbyn heddiw
Yn malio am eu lle
Os cawsant fynd i oedi
Eu hamser yn y dre
Nid felly ydyw Rhiannon
Ni chaiff anifail harm
Tra gwelir hi o gwmpas
Yn cadwr trefn y ffarm.

Mae'n expert gyda'r bara
A chacen dda i de
A gwerthu dros yr Eglwys
Ac elw at y lle
Achosion da sy'n cyfrif
Mae'r wlad yn mynd yn dlawd
Ond mwy o rai fel Rhiannon
Ni welir am y rhawd.

Mae'n bleser cael dod yma
Ymysg y parti llon
Caf innau eich llongyfarch
Yn hapus ger eich bron
Rhwydd flwyddi a ddaw eto
Ac iechyd da yn rhwydd
A chanwn ninnau glodydd
Ar ddiwrnod eich penblwydd.

D. E. Jones, Pentrefoelas



Gorfod gwneud heb ei ginio oedd hanes un cyfaill o Lanberis yn ddiweddar. Roedd o wedi pacio ei frechdanau yn ei dŷ fel arfer ac wedi mynd i'r gwaith. Wedi gwaith caled trwy'r bora, dyma gyrraedd amser cinio . . . agor y tŷn . . . a darganfod fod WIWER wedi achub y blaen arno, ac wedi bwyta ei fwyd i gyd.

ROWND DERFYNOL TLWS YR ECO



Tîm Llanrug oedd yn ail am Tlws yr Eco.



Tîm Cwm-y-glo oedd yn ail am Tlws Iau yr Eco.

DRAENOG



Un dyn a'i gi . . . a'i dair coes.
Y ci, hynny ydi, nid y dyn! Roedd
cystadlu brwd yn Nhreialon Cŵn
Defaid Nant Peris y dydd o'r
blaen. Clywed wnês i bod un
ffarmwr amlwg o Lanberis wedi'i
gynddeiriogi pan drechwyd ei gi
ef gan gi cymydog iddo. Yr hyn
oedd yn brifo oedd mai dim ond
tair coes oedd gan gi'r cymydog.
Paid poeni, 'rhen frawd, rwy'n
deall ei bod yn gystadleuaeth
Gloss iawn.

NANT PERIS

Elwyn Searell Jones, Dwyfor
Ffôn: 870440

Llongyfarchiadau i Siân a Colin
Sibley, Ceunant, ar enedigaeth eu
plentyn cyntaf, sef Jessica Danielle
ar Fai 19.

Y Gymanfa: Bu rhai o blant Rehoboth

yn dysgu'r gwaith ar gyfer Arholiad
Llafar y Gymanfa a gynhaliwyd yn
Neiniolen ddydd Sul, Mai 7. Bu'r
pedwar yn llwyddiannus, a
chawsant wob: Manon Pritchard,
Nicholas Welsby, Stephanie Welsby
a Nora Mullaine.

Ysgol Dolbadarn: Cofiwch am yr
Ocsiwn Addewidion a gynhelir yn yr
Ysgol am 7 o'r gloch, nos Wener,
Mehefin 23.

CYNGHORWYR Y FRO AR Y CYNGOR UNEDOL NEWYDD



LLANRUG

BRIAN JONES (Llafur)
CEFN BWLCH
CWM-Y-GLO
(01286) 870831

CHARLES WYN JONES (Annib'li)
TYDDYN RUDDALLT
LLANRUG
(01286) 676733




LLANDDEINIOLEN

HEFIN WILLIAMS (Plaid Cymru)
FFIOLAU'R GRUG
RHIWLAS
(01248) 352890



DEINIOLEN

LEONARD JONES (Plaid Cymru)
11 HAFOD OLAU
DEINIOLEN
(01286) 870585



WAUNFAWR

EURIG WYN (Plaid Cymru)
Y FRENNI
WAUNFAWR
(01286) 650512



PENISARWAUN

Mrs PAT LARSEN (Plaid Cymru)
LLYGAD YR HAUL, PENISARWAUN
(01286) 870533



LLANBERIS

NOEL DAVIES (Plaid Cymru)
TAN YR EGLWYS, LLANBERIS
(01286) 870109

BETIO

gan Y Gwalch

'Mi fetia i na wnei di mo'no fo,' meddai Nico.

'Faint?' gofynnodd Jac.

'Ugain.'

'O bunna? Dwyt ti ddim yn meddwl mod i am riscio fy mywyd am sigarets?'

Gyda'r nos o hydref oedd hi ar dywyllu. Roedd y ddau hogyn wedi dod gyda'i moto beics i lawr at y crosin ar ochr lein fawr Caergybi. Roeddent yn disgwyl i drên Llundain fynd heibio.

'Be tasa hi yn neidio oddar y rêls?' meddai Nico.

'Does raid iddi ddim gneud yn y fan yma siwr,' meddai Jac.

Roedd y gwynt yn chwyrlio dail y coed o gwmpas eu traed. Yna clywsant sŵn arall.

'Gwna dy hun yn barod,' meddai Nico.

Ond ni symudodd Jac ei bwysau oddiar y giat. Roedd ei ben wedi ei droi i'r chwith i rythu ar y golau bychan oedd yn rhuthro tuag ato o'r gwyll.

Aeth y trên heibio ar sgri a'i ffenestri goleuedig yn edrych fel darnau o hen ffilm yn gwibio. Ond aeth un ffenestr i gof Jac. Cafodd gip ar ferch yn eistedd â'i chefn at y peiriant, llyfr ar ei glin, hithau'n edrych i'r gwyll oddiallan heb wybod fod neb yno.

'Cyw iâr,' meddai Nico. 'Mi ddeudais i na wnaet ti ddim.'

'Un o'r "diesels" isal 'na oedd yn ei thynnu hi heno. Welaist ti ddim.'

'Pa wahaniaeth. Wnei di byth . . .'

'O cau dy geg,' meddai Jac. Aeth at ei foto beic a'i danio. Un mawr oedd o ac yr oedd yn dal i dalu amdano ar huw-puw. Roedd ganddo rai misoedd i fynd wedyn. Dyna pam yr oedd yn dechrau poeni pan gododd si fod y ffatri am roi rhai ar amser byr. Rhuodd y moto beic i fyny'r ffordd gul. Gwaeddodd Nico ar ei ôl.

'Hei mae arnat ti ffags i mi . . .'

Doedd mam Jac ddim wedi mynd i'w gwely. Roedd hi'n eistedd yn llipa o flaen y teledu yn gwyllo rhaglen holi ac ateb. Tafodd Jac ei helm ar y gadair a disgynnodd ei wallt melyn fel llen ar ei wegil. Ni thynnodd y fam ei golwg oddiar y sgrin.

'Mae dy swpar di yn y popty,' meddai.

Llusgodd Jac ar draws yr ystafell i nôl y bwyd. Eisteddodd wedyn yn glec wrth y bwrdd a dechreuodd

bigo'r bwyd. Daeth y rhaglen holi i ben a choddodd y fam yn llafurus oddiar y seti a chauodd y set. Lluchiodd ei sigaret i'r tân a dechreuodd glirio'r bwrdd.

'Yli hwn,' meddai yn sydyn gan ddal blewyn rhwng ei bys a'i bawd. 'Y peth casa gen i ydy blew ar y bwr' ymysg bwyd.'

'Pam?' meddai Jac. Roedd ganddo rhyw gyneddf i ofyn cwestiynau annisgwyl.

'Am ei fod o'n anghynas — dyna pam.'

'Mi rydach chi'n mynd i'r capal yn tydach?'

'Ydw weithia. Be' sy' â wnelo hynny a fo.'

'Ac mi rydach chi'n credu yn Iesu Grist yn tydach?'

Doedd gan ei fam ddim syniad i ble roedd yr holwyddoreg yma yn arwain, fel arfer, a'r cwbl a fedrai hi ddweud oedd ailadrodd ei chwestiwn blaenorol.

'Wel, gwallt hir oedd ganddo fo,' meddai Jac fel dyn wedi gwneud symudiad doeth mewn gwyddbwyll.

'Ia, ond cofia di llanc, roedd gyno fo rhwbach o dano fo.'

Doedd gan Jac fawr o chwaeth at y bwyd. Aeth i'w wely ar ei union ond nid i gysgu. Ceisiodd ddarllen cyfnodolyn am foto beics, ond ni chafodd fawr hwyl. Rhoddodd ei ddwylo o dan ei ben a dechreuodd wneud rhywbeth amheuthun iawn — meddwl.

Meddwl am y noson a aeth heibio; am y fet, am Nico wedi ei weld yn llwfr. Meddwl am drenau yn rhuthro yn y nos — tros ei ben. Sut deimlad oedd hynny? Beth pe bai o'n methu aros? Doedd yna ddim ond un cyfle.

Meddwl wedyn am Patsi a'i gwallt llinynnog a'i chôt ledr. Yr unig hogan a oedd yn meiddio dod y tu ôl iddo i lawr y draffordd ar gan milltir yr awr. Meddwl am wneud y peth o ddifrif nos Fercher — marw neu beidio.

Meddwl am fynd i'r orsaf amser cinio trannoeth i weld faint o le oedd 'na go iawn o dan y tren, yn slei. Penderfynu gwneud y peth neu farw; marw a gadael Patsi a'r moto beic newydd. Penderfynu yn y diwedd y busai'r peth yn gweithio. Buasai popeth yn mynd yn iawn — ond ofn.

Nos Fercher roedd y dail yn dal i chwipio'r coed wrth y crosin. Roedd Jac yn pwyso ar y giat ac yn gobeithio y buasai Nico'n dod. Roedd wedi stwffio nodyn drwy ei

ddrws am nad oedd ganddo awydd wynebu Nico ar ôl beth a ddigwyddodd.

Wrth gwrs fuasai yna ddim diben gwneud y peth heb i Nico fod yno — heb i rhywun fod yn dyst — cael rhywun i brofi.

Nid oedd y gwynt oer yn poeni dim ar Jac. Dringodd tros y giat. Aeth i sefyll rhwng y cledrau a symudodd y metlin brâs o'r neilldu â'i ddwylo. Yna gorweddodd ar ei fol yn y pant. Rhoddodd ei benelinoedd ar lawr a chodi ei ddwylo. Roedd ei freichiau dipyn hwy na'r pric a oedd weid ei blanu wrth ochr y slipan. Roedd y pric wedi bod yno ers daudddydd ond heb ei daflu i lwr. Ond wrth gwrs buasai ei freichiau ar lawr pan ddeuai'r adeg.

Cododd Jac ac aeth yn ei ôl i bwysu ar y giat. Roedd wedi gwneud pob archwiliad. Wedi bod yn yr orsaf yn edrych o dan y tren un amser cinio. Roedd yn meddwl fod ymylon yr olwynion yn finiog iawn.

Roedd hi'n tynnu at amser y tren, a doedd yna ddim sôn am Nico. Ni fuasai'n rhaid i Jac wneud y peth wedi'r cwbl. Ond drylliwyd gobeithion. Gwelodd olau gwyn hir yn dod i lawr y lôn bach a clywodd foto beic Nico.

Nid oedd Jac yn gwybod beth i'w ddweud gyntaf wrth Nico, ond cafodd arbed y drafferth. Doedd dim amser. Clywodd y tren yn udo cyn cael ei llyncu gan y twnel dair milltir i ffwrdd. Roedd Jac yn berffaith dawel ei feddwl. Cerddodd rhwng y cledrau a gollyngodd ei hun rhyngddynt. Roedd ei goesau a'i freichiau ar draws y slipas. Yn glos wrth ei benelin roedd y pric. Roedd Jac yn closio at y pric ac yn cael cysur wrth deimlo hwnnw yn pwyso yn erbyn ei fraich.

Roedd yn clywed sŵn fel cacwn mewn blodau a hwnnw yn cryfhau. Roedd ei fen i fyny'r lein. Ar ôl hir bendroni, roedd wedi penderfynu rhoi ei ben at y tren. Erbyn hyn roedd sŵn y cacwn fel pe bai wedi gostwng i gywair is ac yn codi o berfeddion daear. Rowliodd carreg ar gefn llaw Jac, ond ni cheisiodd gael gwared â hi. Roedd y slipas yn siglo o ochr i ochr a'r holl ddaear yn dyrnu a swnian, ac yr oedd hi'n symud o dan freichiau Jac fel gogr ar waith.

Ble roedd y tren; ganllath i ffwrdd ynteu milltir? Symudodd Jac ychydig ar ei ben. Roedd wedi dychmygu y buasai yn gallu gweld golau'r tren, ond doedd yna ddim ond y sŵn a'r cryndod. Dim i'w wel.d. Roedd y sŵn a'r cryndod yn erchyll. Dim i'w

weld. Doedd hi ddim yn rhy hwyr . . . Clywodd Jac lais main o rhywle. 'Tyrd o 'na y diawl gwirion.'

Ond gafaelodd Jac yn dynnach yn y cerrig, ac yr oedd ei geg yn sych. Roedd y lein a'r slipas yn rhoi fel cant o darannau. Teimlodd Jac ruthr gwynt a hwnnw yn cau am ei ben. Roedd y gwynt yn gafael yn ei freichiau, ac am ysbaid yng nghanol y tarannau aeth yn dywyllach, ond cliriodd wedyn, ond yr oedd y ddaear yn dal i grynu a chwynu.

Gorweddodd Jac yno am yn hir nes iddo glywed sŵn traed ar y metlin.

'Wyt ti'n — wyt ti'n iawn?' gofynnodd Nico.

'Ydw siwr iawn.'

Cododd Jac yn araf ac yr oedd yn teimlo pantiau yng nghledrau ei ddwylo lle roedd wedi gwasgu'r cerrig.

'Hwda,' meddai gan stwffio paced o sigarets i ddwylo Nico. Roedd hwnnw yn sefyll fel delw.

'Sut beth oedd o? Oeddat ti ofn?'

'Nac oedwn. Hwre. Mi gwela i di eto.'

Aeth Jac yn syth at ei foto beic a'i danio gan ruo i fyny'r lôn bach, a gadael Nico yn gafael yn dynn yn y sigarets.

Roedd mam Jac yn golchi'r llestri pan ddaeth i mewn i'r tŷ.

'Rwyd ti'n gynnar iawn heno.'

Clywodd glec y tu ôl iddi. Pan drodd, dyna lle'r oedd Jac wedi llewygu yn swp ar y llawr. Lluchiodd y fam y cadach llestri o'i llaw a phenlinio wrth ei ochr a gafael yn ei ddwylo.

'Yng ngwas bach i, beth ddaeth i ti?'

Ond roedd Jac yn gryf. Roedd wedi hanner dadebru cyn taro'r llawr.

'Dim byd, gadwch i mi. Mi rydw i . . .'

'Paid â siarad. Yli tria godi i'r gadar 'ma. Mi helpa i di.'

Ar ôl cael Jac i gadair estynodd ei fam ddiod iddo.

'Ble buost ti heno? Rhedag gormod hefo'r moto beic yna wyt ti a dim yn byta digon i gadw dy nerth a chditha yn dal i brifio. Mi fydd yn rhaid i ti 'rafu.'

'Gad'wch i mi.'

Roedd Jac wedi dod trosti yn reit dda erbyn hyn.

'Dwad i mi be' fuost ti'n neud heno hogyn?'

'O — dim ond stwnsian o gwmpas.'

'Stwnsian o gwmpas wir. Mae'r hen foto beics 'na yn betha rhy beryg' o lawar i chwara hefo nhw.'



SIOP GREFFTAU A CHAFFI ANTUR WAUNFAWR

Basgedi Blodau Sych ★ Siwtnei

Jams ★ Briwgig ★ Siampw,

Clustogau ★ Ewyn Baddon

Olewon Aromatherapi

Teganau Meddal ★ Mobiles Pren

Ar agor LLUN — GWENER 9 a.m. - 4 p.m.

CRONFA GOFFA R. H. OWEN

Gwahoddir ceisiadau a benchyciadau o'r Gronfa uchod. Ceir manylion a'r amodau drwy anfon amlen, gyda stamp a chyfeiriad arno, i'r Ysgifennydd:

John H. Hughes,

Tan y Clogwyn, Llanberis

Gwynedd LL55 4LF

Ffôn: (01286) 871562

Y ceisiadau i gyrraedd yr Ysgrifennydd erbyn
Awst 31ain 1995

NI YSTYRIR UNRHYW GAIS A DDAW I LAW AR ÔL Y
DYDDIAD CAU PENODEDIG

COFIO DIWEDD Y RHYFEL



Cynhaliwyd gweithgareddau arbennig yn Llanberis ddydd Llun, Mai 8fed, i gofio hanner canmlwyddiant diwedd yr Ail Ryfel Byd. Daeth tyrfa gref ynghyd wrth y Gofeb lle cynhaliwyd gwasanaeth byr dan arweiniad y Parchg Philip Hughes a'r Parchg John Pritchard. Gosodwyd dwy dorch o fodau wrth y gofeb ar ddiwedd y gwasanaeth.

Yr oedd y trefnwyr wedi paratoi te arbennig yng Ngwesty'r Dolbadarn i gynaelodau'r lluoedd arfog a fu'n gwasanaethu yn ystod y rhyfel. Cyflwynwyd anrheg bychan i'r cyfeillion hyn. Rhoddwyd tei ag arno fathodyn yn coffáu diwrnodau VE a VJ i 98 o ddynion a sgarff tebyg i 5 gwraig. Gyda'r nos, cynhaliwyd cyngerdd yn Eglwys St. Padarn. Cymerwyd rhan gan Rhian Owen, Dilys Williams, Timothy Ward a Chôr Meibion Dyffryn Peris.

Dymuna'r trefnwyr ddiolch am bob cefnogaeth a gafwyd i

sicrhau llwyddiant y diwrnod. Roedd y gwahoddedigion wedi mwynhau eu hunain yn fawr ac wedi gwerthfawrogi'r paratodau ar eu cyfer. Os oes rhywun yn dymuno cael llun i gofio'r diwrnod, cysylltwch â Ken Jones, 19 Maes Padarn, Llanberis. Gellir prynu lluniau a dynwyd wrth y Gofeb neu yn y te am £3 yr un.

DRAENOG

Gawsoch chi'r teimlad erioed bod rhywun yn eich gwyllo?

Ar ei ffordd adref oedd E, ban Wyn-ebodd gawod drom o law. Rhag gwylchu'n ormodol dyna neidio i'r ciosg ffôn wrth Orsaf yr Heddlu i mochel. Dychmygwch ei syndod pan ganodd y ffôn a llais o ben arall y lein yn ei gyhuddo o fod yn fandal â'i fryd ar falurio'r ciosg.

Welsoch chi neb yn ei gleuo hi allan o giosg mor sydyn. Allan i'r glaw a fo, a ffoi am adref am ei fywyd.

CYMANFA YSGOLION SUL DOSBARTH PADARN

Cynhaliwyd y Gymanfa yng Nghapel Cefnywaun, Deiniolen, ddydd Sul, Mai 7fed. Arweinydd y Gân oedd Mrs Eurgain Eames, Llanwnda, gyda Mr Gareth Jones, Llanberis, wrth yr organ. Llywydd cyfarfod y prynhawn oedd Mrs Falmai Pritchard, Llanberis, a Mr Goronwy Jones, Cysegr, oedd llywydd cyfarfod yr hwyr. Arweiniwyd rhannau dechreuol cyfarfod y prynhawn gan blant Ysgol Sul Unedig Deiniolen. Miss Alwena Morris ac Elfed Morris oedd yn arwain y gwasanaeth dechreuol yng nghyfarfod yr hwyr. Yn ystod cyfarfod yr hwyr cafwyd eitemau cerddorol gan Lleisiau'r Rhyd gyda Mrs Ilid Ann Jones yn cyfeilio iddynt a Mrs Eames yn eu harwain. Gwobrwywyd 95 o blant yn y prynhawn a 7 o oedolion yn yr hwyr am ddysgu'r arholiad llafar.

Carai'r pwyllgor ddiolch yn fawr i aelodau a swyddogion Capel Cefnywaun am eu cydweithrediad a'u cymorth i wneud y Gymanfa yn un llwyddiannus, diolch i bawb a gymerodd ran mewn unrhyw fodd i'n cynorthwyo a'n cefnogi.

CYNGOR CYMDEITHAS LLANDDEINIOLEN

Yn y Cyfarfod Blynyddol etholwyd Elwyn Jones, Rhiwlas, yn gadeirydd; a Len Jones, Deiniolen, yn is-gadeirydd. Llongyfarchwyd Len Jones, ynghyd â Hefin Williams, Rhiwlas, a Mrs Pat Larsen, Penisarwaun, ar gael eu hethol yn ddiwrthwynebiad i gynrychioli gwahanol ardaloedd o'r plwyf ar y Cyngor Unedol newydd. Estynnwyd croeso i aelod newydd i'r Cyngor, sef Keith Brymer Jones, dros Ward Brynrefail. Eglurodd y Clerc fod yna ddwy sedd wag i'w llenwi — un yn Ward Deiniolen ac un yn Ward Clwt-y-bont. Os oes rhywun â diddordeb i gynrychioli y Wardiau hyn ar y Cyngor fe ddylent gysylltu a'r Clerc, Selwyn Griffith, Crud-yr-awen, Penisarwaun, trwy lythyr.

Penderfynodd y Cyngor wneud ymholiadau â oes yna bwrpas bellach i'r deinasoriaid mud o beilons sy'n hofran dros yr ardaloedd yma, gan fod dyddiau Atomfa Trawsfynydd bellach wedi dod i ben.

RHAGOR O NEWYDDION BETHEL

Eisteddfod y Pentref: Cynhelir yr Eisteddfod eleni ddydd Sadwrn, Tachwedd 18fed yn y Neuadd gyda'r cystadlaethau dan 12 yn y prynhawn a'r cystadlaethau eraill yn yr hwyr. Cynhelir y cystadlaethau Dawnsio Disgo a Gwerin ar nos Wener, Tachwedd 10fed.

Os oes unrhyw unigolyn, busnesau neu gymdeithas yn dymuno rhoi tlws neu rodd at yr Eisteddfod a fyddent cystal â chysylltu â'r Llywydd, Mr Goronwy Jones; yr Ysgrifenyddes, Mrs Rita Dauncey Williams, neu'r Trysorydd, Mr Siencyn Morgan Griffith. Cydnabyddir pob rhodd yn y Rhestr Testunau.

Cynhelir yr is-banelau cerdd, llefaru, llên a chrefft yn y Neuadd am 7.30 nos Fercher, Mehefin 7fed. Cynhelir cyfarfod nesaf y pwyllgor llawn, nos Fercher, Mehefin 28ain, am 7.30.

Llongyfarchiadau i Nia a Richard Sharpe, Cae Metta, ar enedigaeth efeilliaid, Lowri Mai a Glesni Mai. Dymuniadau gorau i'r teulu.



Argraffu a Ffotogopio Lliw
Lluniau ar gyfer pasport
Crysau-T
Gwasanaeth Dylunio Pen
Llythrau, Cardiau Busnes
ac ati, Ffotograffiaeth ...
a llawer mwy

**48 Stryd Fawr
LLANBERIS**

Ffôn/Ffacs: 870200

CHIROPODIST
Gwasanaeth yn
eich Cartref
E. Ll. Parry
M.S.S.Ch., M.B.Ch.A.
57 Glanffynnon
LLANRUG

Ffôn:
**Caernarfon
675754**

I drin a thrwsio
pob math o
beiriannau gwnïo
**MENAI SEWING
MACHINE CENTRE**
40 Stryd Fawr
PORTHAETHWY
Ffôn:
(0248) 714043
neu C'fon 674520
Edau, Nodwyddau
ac ati mewn stoc

**IEUAN
WILLIAMS**

Glanffrwd
DEINIOLEN
Llanberis 870484

★ Bysiau o 12 i 53 sedd
★ Teithiau Lleol a Thramor
★ Gwaith Contract
★ Telerau arbennig i
bensynwyr, myfyrwyr a
phlant ysgol

asiantaeth



budd-daliadau

Beth yw Budd-dâl Analluogrwydd? Budd-dâl newydd yw Budd-dâl Analluogrwydd, ar gyfer pobl na fedrant weithio oherwydd salwch neu anabledd. Mae'n disodli Budd-dâl Analluedd a Budd-dâl Salwch o 13 Ebrill 1995.

Bydd Tâl Salwch Statudol yn dal i fod ar gael ar gyfer pobl sy'n gweithio i gyflogwr.

Bydd yna dair cyfradd o Fudd-dâl Analluogrwydd. Am y 28 wythnos gyntaf o salwch, telir y gyfradd is byr dymor. O 29 i 52 wythnos o salwch telir y gyfradd uwch byr dymor. Ar ôl blwyddyn o salwch, telir y cyfradd hir dymor.

Caiff pobl sy'n cael Budd-dâl Salwch neu Fudd-dâl Analluedd eu trosglwyddo'n awtomatig i Fudd-dâl Analluogrwydd, a chânt eu talu ar yr un gyfradd cyhyd â'u bod yn parhau i anfon eu tystysgrifau meddygol i mewn.

Pwy all ei gael?

Telir Budd-dâl Analluogrwydd i bobl o dan oedran pensiwn y wladwriaeth (60 i fenywod, 65 i ddynion). I gael Budd-dâl Analluogrwydd rhaid i chi fod yn sâl neu'n anabl ac yn analluog i weithio

am 4 diwrnod neu ragor yn olynol. Rhaid hefyd eich bod wedi talu digon o gyfraniadau Yswiriant Gwladol.

Gellwch gael Budd-dâl Analluogrwydd dros oedran pensiwn y wladwriaeth os dechreuodd eich cyfnod o salwch cyn i chi gyrraedd oedran pensiwn. Telir y gyfradd byr dymor yn unig i bobl dros oedran pensiwn hyd at 52 wythnos o salwch. Yr eithriad yw pobl dros oedran pensiwn sydd yn cael Budd-dâl Analluedd (Invalidity Benefit) ar y 12 o Ebrill — byddant yn cael eu trosglwyddo i Fudd-dâl Analluogrwydd hir dymor.

Beth am y prawf newydd i asesu analluogrwydd i weithio?

Yn y rhan fwyaf o achosion, am y 28 wythnos gyntaf o salwch, bydd eich analluogrwydd yn cael ei asesu drwy ddefnyddio tystysgrifau meddygol. 'Prawf galwedigaethol y person' yw'r enw am hyn.

Ar ôl 28 wythnos, neu o ddechrau'r salwch lle nad oes swydd reolaidd gan y person, bydd 'prawf pob gwaith' yn asesu person i gyflawni amrywiaeth o

weithgareddau. Anfonir holiaduron at y person i gasglu gwybodaeth am ei gyflwr meddygol. Hwyrach wedyn y bydd angen archwiliad meddygol gan feddyg o'r Asiant Budd-daliadau.

NI FYDD y dulliau newydd hyn yn gymwys i bobl:

gyda rhai cyflyrau meddygol difrifol fel paraplegia, dementia, salwch meddyliol difrifol, ac yn y blaen;

sydd wedi eu cofrestru'n ddall; sy'n cael y gyfradd uchaf o'r elfen ofal Lwfans Byw i'r Anabl; sy'n cael Lwfans Anabledd Difrifol ar 12 Ebrill 1995; sydd wedi bod yn cael Budd-dâl Analluogrwydd yn barhaus ers Rhagfyr 1993 ac yn 58 oed neu'n hyn ar 13 Ebrill 1995.

GWYBODAETH GRYNNO YN UNIG SYDD YMA. AM RAGOR O WYBODAETH GYFFREDINOL, FFONIWCHE LINELL YMHOLIADAU BUDD-DALIADAU AR GYFER POBL AG ANABLEDDAU AR 0800 88 22 00 (SAESNEG YN UNIG); NEU FFONIWCHE LINELL DDI-DÂL NAWDD CYMDEITHASOL AR 0800 28 90 11 (CYMRAEG).

ROB



Mae amryw o ddarlennwyr yr *Eco* wedi bod yn holi pwy yw 'Rob' sy'n gwneud cartwnau'r *Eco* y dyddiau yma.

Gŵr o Amlwch yw'r cartwnydd Robert Williams. Bu'n fyfyrwr ym Mangor cyn dilyn cwrs fferylllyddiaeth yn Lerpwl. Cafodd swydd gyda chwmni Euro-DPC pan agorwyd y ffatri newydd yn Llanberis dair mlynedd yn ôl. Yno mae'n gweithio o hyd. Mae'n byw yn Llanberis yn ystod yr wythnos ac yn dychwelyd i'w gartref yn Amlwch i frwr'r Sul.


Bu ganddo ddiddordeb mewn gwneud cartwnau ers pan oedd yn blentyn. Cafodd rhai o'i gartwnau eu cyhoeddi mewn cylchgronau fel *Cartoon Monthly* ac ym mhapur newydd y *Sun*. Erbyn hyn mae wedi dechrau gwneud sribedi cartwn, ac mae'n gobeithio gweld y rhain yn cael eu cyhoeddi mewn cylchgronau cartwn. Dywed Rob ei fod yn bodloni ar wneud cartwnau du a gwyn yn unig, a hynny am y rheswm syml ei fod yn lliw-ddall.

Mae wedi bod yn cyfrannu i'r *Eco* ers blwyddyn bellach, ac mae ei gyfraniadau ef wedi rhoi ergyd ychwanegol i rai o storïau'r Draenog.

Gyda llaw, os hoffech gael llun cartwn ohonoch eich hun, neu ryw aelod o'ch teulu, dowch draw i'r Ocsiwn Addewidion a gynhelir yn Ysgol Dolbadarn, Llanberis, nos Wener, 23 Mehefin. Cewch gyfle i gynnig prynu gwasanaeth Rob i wneud cartwn unigryw.

Cefnogwch
ein
Hysbysebwyrr

Cae Ffordd Padarn . . . neu Ffordd Cae Padarn?



Ys dywed yr arbenigwyr . . . 'Gêm o ddau hanner fydd hi yn Llanberis o hyn allan'. Gobeithio bydd y contractwyr carthffosiaeth wedi codi'r lôn erbyn dechrau'r tymor newydd.

TRIN GWALLT YN EICH CARTREF
MERCHED ★ DYNION ★ PLANT

Lynette Evans
GARNET, LLANRUG
Ffôn: 673981 / 675807

Heliwch eich traed
am fargen i

**SIOP
ESGIDIAU
GLENS**
Stryd Fawr
LLANBERIS
Ffôn: 871470



Bistro
LLANBERIS
Ffôn 871278

PERCHNOGION: DANNY A NERYS ROBERTS

LLE DA I WLEDDA

Beth am Fwffe Enwog Nerys (rhwng 20 - 70)
i ddathlu pen-blwydd neu ben-blwydd priodas
Partion rhwng 20 a 40. Ffoniwch am fanylion.
Cofiwch am nosweithiau arbennig y Bistro —
nos Wener olaf bob mis

GWYNETH ROBERTS

84 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870491

CAFFI "BWYTY ERYRI"
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION



Bara Ffres
Teisennau
Priodas, Bedydd
Pen-blwydd ac ati
Peis, Rholiau Sosej
Pasteiod, Teisennau Hufen
Teisennau Plât, Torth Gyrains ac ati

BECWS ERYRI

Stryd Fawr, Llanberis 870491

DEINIOLEN

W. O. Williams, 6 Rhydfadog. Ffôn: 871259



Derbyniodd rhai o gadlancwyr Urdd St. Ioan Deiniolen dystysgrif 'Cymorth Cyntaf' gan eu prif swyddog, Mrs Catherine Watkins, ar Ebrill 25ain. Yn y llun gweir (o'r chwith i'r dde): Julie Ann Jones, Bethan Wyn Jones, Carol Ann Jones, Alison Vanessa Jones, Lowri Ann Williams, Joseph Jones a Stephanie Claire Williams.

Marw Organydd o Fri: Ar 22 Chwefror bu farw 'Jerry Gerard', sef Ralph Lewis yr organydd enwog o Santa Barbara, California, Yr Unol-daleithiau, yn 87 oed. Brodor o Deiniolen oedd Jerry a'i deulu yn hanu o Tan Giarat, Hafod-y-braich, a 5 Stryd Baptist ger Rhes Marian. Arferai ddod adref i Ddeiniolen bron yn flynyddol i ymweld â'i deulu a'i ffrindiau. Roedd Deiniolen a'r iaith Gymraeg yn annwyl iawn ganddo. Rhyw ddwy flynedd yn ôl cawsom y fraint o'i weld ar y teledu, ar y rhaglen 'Hel Straeon', yn chwarae'r organ a chael sgwrs â Gwyn Llywelyn.

Cleddir ei weddillion ym medd ei rieni ym mynwent Eglwys Llandinorwig ar 9 Gorffennaf. Bydd croeso i unrhyw un a'i adwaenai ymuno yn y gwasanaeth yn yr Eglwys yng nghwmni ei weddw, Joan, a'i feibion, Warren a Roger.

Gair o Ysgol Gwaun Gynfi: Bu Cwmni'r Frân Wen yma yn ddiweddar yn perfformio i ddosbarth 5. Enw y perfformiad oedd 'Codi Gwrychyn'. Stori oedd hi am fam a dau fab oedd yn gwrthwynebu i'r cawg oediladu lôn ar draws y fferm.

Cyn gwyliau'r Pasg daeth Mr Ellis Williams — taid Trystan — i roddi sgwrs i ni am y Chwarel. Adroddodd

storiau doniol a fwyd y Chwarel. Dywedodd sut i afael ar arfau y Chwarel a sut i'w defnyddio.

Ar 6ed o Fawrth daeth Mr Austin Thomas atom ni i ddysgu ni sut i chwarae rygbi. Bu dosbarth 4 a dosbarth 5 ato am gyfnod.

Mai 15 daeth Mr John Williams a dillad pêldroed newydd i'r Ysgol. Mae tim pêldroed Deiniolen wedi prynu dillad pêldroed i'r Ysgol. Mae'r dillad yma yr un fath a dillad Deiniolen.

Buasem yn hoffi diolch i bawb ddaeth i'r Ffair Basg i werthu a prynu pethau.

GOHEBWYR Y MIS HWN:
LOWRI, TRYSTAN, BEN, GETHIN A GAVIN.

Diolch: Dymuna Jennie M. Jones, 1 Maes Gwylfa, ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a'i chydweithwyr am y llun cardiau, anrhegion a'r parti a dderbyniodd ar achlysur ei hymddeoliad o Ysbyty Gwynedd.

Ebeneser: Cynhaliwyd Cyfarfod Chwarter Annibynwyr Gogledd Arfon yng nghapel Ebeneser, nos lau, Mai 4ydd. Llywyddwyd gan y Parchd Dafydd Owen, Hen Golwyn. Cafwyd adfyddiad gan Mrs Mary Davies, Llundain, Ysgifennydd Cymdeithas y Cenhedloedd Unedig. Soniodd am 50 mlwyddiant diwedd yr Ail Ryfel Byd a sefydlu'r Cenhedloedd Unedig. Paratowyd lluniaeth yn festri'r capel gan aelodau Ebeneser.

Cefnywaun: Croesawyd Cymanfa Dosbarth Padarn i Gefnywaun,

CLWB SNWCER DEINIOLEN



Meirion Jones (chwith), enillydd Cwpan Coffa Idwal Jones, a Stanley Roberts a oedd yn y rownd derfynol.



Geraint Owen a Gethin Williams, enillwyr Tarian Lockwell's Electrics, yn y gystadleuaeth dyblau Snwcer. Stanley Roberts a Michael Thomas oedd yn eu herbyn yn y rownd derfynol.

ddydd Sul, Mai 7fed. Llywyddwyd cyfarfod y prynhawn gan Mrs Falmi Pritchard a chyfarfod yr hwyr gan Mr Goronwy Jones. Mrs Eurgain Eames oedd yr arweinydd gwadd, a chafwyd eitemau gan Lleisau'r Rhyd, dan ei harweiniad hi, yng nghymanfa'r hwyr. Mr Gareth Jones oedd yr organydd. Paratowyd lluniaeth rhwng y ddau gyfarfod gan aelodau Cefnywaun.

Cyngor Eglwysig: Cynhaliwyd yr oedfa Cymorth Cristnogol eleni yn Ebeneser, nos Lun, Mai 15fed.

Diolch: Dymuna Richard Leonard Jones, 11 Hafod Oleu, ddatgan ei ddolch am y cyfle o gynrychioli Ward Deiniolen ar y Cyngor Unedol newydd.



John Williams, enillydd Cwpan Coffa Arthur Owen. Huw Evans oedd yn ei erbyn yn y rownd derfynol.



Llongyfarchiadau i'r tîm pêl-droed am dymor hynod o lwyddiannus. Enillwyd y gynghrair a dau gwpan a bu ond y dim i'r hogia gipio'r trydydd cwpan a chael set gyflawn o dlysau Cynghrair Sain.

OSMOND SHAW DEINIOLEN

GWERTHU
- TRWSIO

★ Teledu

★ Fideo

★ Offer Trydan

Gwasanaeth

Ffôn 24 awr

LLANBERIS 870545

MAE'R
SAMARIAID
YN GWRANDO,
YN ABBEY ROAD



BANGOR
354646

BRYNREFAIL

! Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. 870580

Camera yng ngofal Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug. Ffôn: 677263

Cymanfa Dosbarth Padarn: Cynhaliwyd y Gymanfa eleni ddydd Sul, Mai 7fed, yng Nghapel Cefnywaun, Deiniolen. Llongyfarchiadau i'r canlynol o blant Ysgol Sul Brynrefail ar eu llwyddiant ym maes yr Arholiad Llafar: Rhian George, Caryl ac Awen Jones, Dylan Davies, Elen Williams ac Amy Lambert.

Profedigaeth: Cydymdeimlwn yn ddwys â theulu y diweddar Melfyn Evans, 1 Minffordd, yn eu profedigaeth. Gofid oedd deall am ei farwolaeth dan amgylchiadau trist ar Ebrill 25ain. Bu'r angladd preifat yn ei gartref ar Ebrill 29ain ac yn dilyn ym mynwent Nant Peris.

Cymdeithas y Chworiydd: Cyfarfu'r Gymdeithas yn y Festri, nos Iau, Mai 11eg, dan lywyddiaeth Mrs Ifanwy Jones, Rhandir. Roedd y defosiwn dan ofal Mrs Ellen George, Sŵn yr Engan. Cyflwynodd ei myfyrdod gyda chyfres o englynion mawl i dymor yr haf.

Cyflwynwyd y siaradwr gwadd, Mr John Meirion Morris, Griolen, gan y llywydd. Roedd yn hyfrydwch ei gael i'r Gymdeithas, yntau wedi ymgartrefu yn Stad Erw Nant ers ryw bum mlynedd ac yn arbenigwr ym maes Celfyddyd. Treuliodd ran gyntaf ei sgwrs yn sôn am ei yrfa ddiddorol ac yna tywys yr aelodau i arbrofi yn ymarferol. I gloi, bu'n arddangos enghreifftiau o'i waith a'i gampwaith diweddar mewn efydd yn darlunior tymhorau — gwaith a gymerodd dri mis i'w gwblhau. Diolchwyd iddo am noson ddifyr gan Mrs Jennie A. Roberts, 2 Ffrwd Madog. Roedd y baned dan ofal Mrs Eirianwen Evans a Mrs Dilys Jones. Bydd y cyfarfod nesaf ar Fehefin 8fed, a'r gŵr gwadd fydd Mr Selwyn Griffith, Penisarwaun. Estynnir croeso cynnes i bawb o'r pentref i'r cyfarfod hwn.

Cofion: Anfonwn ein cofion cynnes at Mrs Betty Owen, Tros yr Afon, sydd gartref erbyn hyn o Ysbyty Gwynedd wedi iddi dderbyn triniaith lawfeddygol. Dymunwn adferiad buan hefyd i Mr Islwyn Jones, 3 Trem Eilian, a gyfarfu â damwain enbyd yn Llundain tra ar ymweliad gyda Chôr Meibion Dyffryn Nantlle. Rydym yn falch o ddeall ei fod gartref, wedi bod am gyfnod mewn ysbyty yn y ddinas.

Sefydliad y Merched: Cyfarfu'r

aelodau yn y Festri, nos Lun, Mai 15fed. Roedd y noson dan ofal y llywydd, Mrs Pat Jones, yn trafod argymhellion y Cyfarfod Blynnyddol a gynhelir eleni yhn Blackpool. Yn ystod y cyfarfod trefnwyd rhai gweithgareddau a fydd i'w cynnal yn ystod mis Mehefin, sef y Daith Ddirgel Flynyddol ar Fehefin 23ain. Trenfwyd y lluniaeth gan Mrs Gwenllian Edwards a Mrs Dwynwen Williams ac enillydd gwobr y mis, rhoddedig gan Mrs Ifanwy Jones, oedd Mrs Mai Davies. Nos Lun, Mai 22ain, ymwelodd rhai aelodau o'r gangen â'r Ganolfan, Llanberis, mewn gêm bowllo mat byr.

Genedigaeth: Llongyfarchiadau i Mr a Mrs Arthur Jones, 5 Trem Eilian, ar ddod yn daid a nain unwaith eto. Ganwyd merch fach, Jessica Ellen, i Christine ac Adrian Sailsbury, Y Groeslon, ar Fai 17eg.

Arwydd: Croesewir yr arwydd i ddynodi 'Brynrefail', a osodwyd yn ystod y mis, ar fin y ffordd wrth ddynesu tuag at y pentref o gyfeiriad Bangor.

Eglwys M.C. Brynrefail: Bydd trefn yr oedfaon Sabothol fel a ganlyn yn ystod y Suliau nesaf:

MEHEFIN:

4. Mr Islwyn Hughes, Llangoed, am 10.

11. Parchg Gwynfor Williams, Caernarfon am 10.

18. Parchg W. R. Williams, Y Felinheli am 5.30.

25. Sul Cymdeithas y Beiblau. Oedfaon am 2 a 6 yng Nghapel Ebeneser, Deiniolen.

GORFFENNAF:

2. Parchg Dilys Myfanwy Davies, Y Felinheli am 10.

Cymanfa Ganu Henaduriaeth Arfon yng Nghapel Bethel, Pen-y-groes, am 6.

Arweinydd: Mr Walter Glyn Davies, Amlwch. Organydd: Mr Gareth Jones, Capel Coch, Llanberis.

PLYGU'R ECO: Cofiwch y byddwn yn plygu'r Eco yn y Festri, NOS IAU, MEHEFIN 29ain. Dowch yn llun i roi help llaw.

Cefnogwch ein Hysbysebwy

DINORWIG

Glyn Tomos, Pen y Bwlch, Ffôn: 870576

YDYCH CHI YMA?



Llun o blant Ysgol Dinorwig yn 1929-30. Cysylltwch a'r golygyddion os allwch enwi rhywfaint ohonynt neu'r athrawes.

Llongyfarchiadau i Glyn a Ruth Morris, Bwthyn Foel Gron, ar enedigaeth merch fach ar y 18fed o Fai, chwaer fach i Einion. Llongyfarchiadau mawr iddynt fel teulu. **Llongyfarchiadau** hefyd i blant Ysgol Sul Capeli M.C., ar eu llwyddiant yng Nghymanfa'r Presbyteriaid, Dosbarth Padarn, a ganhaliwyd yng Nghapel Cefnywaun ar ddydd Sul, Mai 7fed. Cawsant i gyd farciau llawn am eu hymdrechion. O dan 4 oed: Elen Ann Morris; dan 6: Rhian Wyn Morris a Sioned Mir Phillips; dan 8: Donna Elizabeth Phillips a Ceri Bryn Morris. Da iawn blant.

Bedydd: Ar ddydd Sul, Mai 14eg, gyda'r Parchg S. O. Hughes yn gweinyddu, bedyddiwyd Mared Meleri, merch fach Mr a Mrs W. H. Morris, 7 Minffordd, Brynrefail. Pob bendith i'r teulu.

Diolch: Dymuna Valmai Davies, 10 Bro Elidir, ddiolch o galon i bawb am eu caredigrwydd a'u dymuniadau da yn dilyn ei llawdriniaeth ddiweddar.

Llwyddiant: Fel eu cymdogion rydym

ni yn Ninorwig yn llongyfarch pentref Deiniolen ar lwyddiant y Seindorf a'r tîm pêl-droed.

Achlysur Arbennig: Bydd dydd Sul, Mehefin 4ydd, yn garreg filltir hanesyddol iawn i aelodau Capel Sardis gan y byddant yn dathlu 175 o flynyddoedd ers sefydlu'r Achos. Cynhelir Oedfa Bregethu am 10 y bore gyda'r Parchg Emlyn Jones yn gwasanaethu. Am 2 y prynhawn ceir peth o hanes yr eglwys ac atgofion gan Mr T. M. Basset, a'r Parchg Ifor Ll. Williams a'r Parchg William John Lewis. Yna i gwblhau'r dathlu bydd Cymanfa Ganu am 6 yr hwyr o dan arweiniad Mrs Enid Griffith. Cofiwch ddod yn llun i ymuno ag aelodau'r capel ar y sul arbennig hwn.

Llun: Daeth y llun (a welir gyda'r Newyddion hyn) i law oddi wrth Cledwyn Parry, Llanberis. Ymddengys mai oddeutu 1929/30 y'i tynnwyd. Byddai'n ddiddorol gwybod pwy sydd yn y llun a beth oedd yr amgylchiad.

GARTH MAELOG

PET CENTRE AND GROOMING SALON

Bwyd ac anghenion
Anifeiliaid anwes bychan
Pysgod dwr oer
Offer pysgota



Molchi, cribo a chlipio
cwn a chathod
o bob math
gan arbenigwr

STRYD FAWR, LLANBERIS 870840

GORSAF BETROL



BERAN

DEINIOLEN.

Ffôn: Llanberis 871521

Ar agor 7 a.m. — 9 p.m. bob diwrnod
Petrol ● Diesel ● Nwy Calor ● Glo
Cylchgronnau ● Papurau Newydd
Cardiau Penblwydd ● Wyau
Nwyddau Groser ● Melysion

Cyfle i ennill £10 bob wythnos i bawb sy'n prynu petrol



**J.M.
JONES
A'I FEIBION**

**GWAITH
CERRIG
BEDDAU**

Y SGWÂR LLANRUG

Crefftwyr gwaith
llaw traddodiadol
Cerrig o bob
math ar gael

Ffôn:
C'fon 672898 (dydd)
C'fon 676285 (nos)

LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn, Ffôn; 675384.

Camera yng ngofal Gwyndaf Hughes, Glasgoed. Ffôn: 677263

Diolchiadau: Dymuna teulu y diweddar Owen Humphreys, 16 Bro Rhyddallt, ddiolch yn fawr iawn i'w teulu, cymdogion a ffrindiau am bob arwydd o gydymdeimlad drwy gardiau, galwadau ffôn ac ymweliadau. Bu farw Mr Humphreys ar y 19eg o Ebrill. Brodor o Nant Peris, ond wedi byw yn Llanrug am flynyddoedd lawer. Cydymdeimlwn â Mrs Humphreys, Derek ac Olive a'u teuluoedd.

Llongyfarchiadau i Clive a Janice Griffith, Bryn Ffynnon, ar enedigaeth merch fach, Sadie Wyn, yn Ysbyty Gwynedd ar 23 Mawrth. Mae Sadie yn chwarae fach newydd i Tracy ac yn wyres arall i Gwilym a Joan Griffith, Pant Tirion.

Diolchiadau: Dymuna Clive a Janice Griffith, Bryn Ffynnon, ddiolch i bawb am y cardiau, anrhegion ac arian a dderbyniasant ar enedigaeth Sadie Wyn.

Etholiad Cyngor Sir Gaernarfon a Meirionnydd: Hoffwn gymryd y cyfle hwn i ddiolch i bawb am y croeso a gefais cyn yr etholiad ac am eich cefnogaeth ar 4 Mai. Os gallaf fod o unrhyw gymorth i chwi ar unrhyw fater cofiwch gysylltu â mi ar (01286) 676733 — Charles Wyn Jones, Tyddyn Rhuddallt, Llanrug.



Deian Roberts

Llongyfarchiadau i Deian Roberts, Meifod, Ffordd yr Orsaf, ar gael ei gyflwyno gyda 'tankard' yn ystod y 'Passing Out Parade' am fod y ricriwt

gorau yn y 'drill' ar yr 8fed o Ebrill.

Mae Deian wedi ei leoli yng Ngholeg y Dywysoges Marina, Abborfield, Berkshire, sydd yn goleg i'r Fyddin. Pob dymuniad da iddo.

Llongyfarchiadau i Goronwy ac Olwen Hughes, Eithinog, Stad Glanffynnon, ar ddod yn daid a nain am y tro cyntaf. Ganwyd merch fach, Lois, i Delyth.

Hefyd i Meurig a Mary Parry, 1 Stad Minffordd, ar ddod yn daid a nain eto — ganwyd merch fach arall i Dwynwen. Pob dymuniad da iddynt i gyd.

Plaid Cymru: Trefnwyd Helfa Drysor lwyddiannus a hwyliog gan Iwan a Gwenda Roberts, nos Fercher, Mai 10. Arweiniodd y cliwiau y cystadleuwyr o Lanrug drwy Gaeathro a Bontnewydd at swper blasus yn Nhafarn Ty'n Llan, Llandwrog. Enillwyd yr Helfa oedd Cliff a Vera, Huw a Sheila, ac enillwyd y raffl gan 1, Morfudd Roberts; 2, Huw Williams. Diolch i Iwan a Gwenda am drefnu noson mor ddiddorol.

Cynhaliwyd cyfarfod arbennig nos Iau, Mai 18, yn y Sefydliad Coffa, i drafod cynigion i'w cyflwyno i Gynhadledd Flynnyddol y Blaid yn Aberdâr ym mis Medi, a hefyd i'r Gynhadledd ar y Cyfansoddiad a gynhelir ym mis Gorffennaf. Dewiswyd cynrychiolwyr o'r gangen i'r ddwy gynhadledd.

Dyma enillwyr y Clwb Cant am y tri mis diwethaf — Mawrth: 1, Mrs Jean Walsh; 2, Mrs J. E. Parry. Ebrill: 1, Frank Green; 2, Sharon Wyn, Bryn Moelyn. Mai: 1, Raymond Jones; 2, Joan Griffith.

Llongyfarchiadau i Goronwy ac Olwen Hughes ar dadd yn daid a nain, ac i Delyth ar enedigaeth Lois Gwenllian.

Nos Fercher, Mehefin 14, bydd Taith Ddirgel yn cychwyn o sgwâr Llanrug yn brydlon am 5.45 o'r gloch. Y pris yw £8.50 yn cynnwys y bws a phryd tri chwrs. Ffoniwch Cliff Williams, Awelon (674878) am fanylion y fwydlen; bydd Cliff yn falch o gael enwau y rhai sy'n bwriadu dod, a'u dewis o fwyd, cyn gynted ag sydd bosib.

Dymuniadau da i Ffion Haf, Bryn Edern, Ffordd Glanmoelyn, a fu yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar. Roedd ym deall ei bod wedi bod yn ferch fach dda iawn tra yn cael



Plant yr ysgol fu'n cystadlu yng nghystadleuaeth tennis y BLTA yn ddiweddar.

Newyddion o'r Ysgol Gynradd: Bu blwyddyn 5 a 6 yn ymweld â'r Glasgoed a Phendinas i weld olion y pentre'u a'r fryn-gaer Frythonaidd fel rhan o'u gwaith thema ar gyfnod y Rhufeiniaid yng Nghymru. Cafwyd taith fuddiol ar ddiwrnod poeth, a bu'r achlysur yn un cofiadwy i'r plant.

Ymwelodd Martin Geraint â'r babanod, a bu'n canu a darllen storïau yn ymwneud â'r thema y babanod, sef 'Teithio'.

Cymerodd wyth tîm tennis o'r Ysgol ran yng nghystadleuaeth tennis y BLTA yng Nghanolfan Hamdden Pen-y-groes ar ddydd Mercher y 10fed o Fai. Bu cystadlu brwd rhwng ysgolion o Fangor, Sir Fôn a Llanrug. Llongyfarchwn y plant

i gyd am chwarae mor dda, yn enwedig tîm 'A' yr Ysgol a ddaeth yn ail yn y gystadleuaeth.

Nos Wener, 19 Mai, cynhaliwyd cystadleuaeth 7-bob-ochr Tlws yr Eco ar gaeau yr Ysgol, rhwng tîmau pêl-droed y dalgylch. Rhaid canmol pob tîm am y safon uchel o bêl-droed a welwyd ar y noson. Llongyfarchwn tîm 'A' dan ddeg oed Llanrug a enillodd y gystadleuaeth i'r oedran hwnnw; ond anlwus fu tîm 'A' dan ddeuddeg oed a gollodd o un gôl i ddim yn y rownd derfynol yn erbyn tîm Bethel. Da iawn chi.

Dydd Iau, Mai 18, bu disgyblion y dosbarth derbyn ar ymweliad â Melin Llynnon a Fferm parc y Foel ar Ynys Môn. 'Y Fferm' yw'r thema'r dosbarth y tymor hwn.

hen driniaeth gas. Dymuna Gwynfor a Linda ddiolch yn fawr iawn i bawb a fu mor garedig drwy gardiau, anrhegion a galwadau tra bu Ffion yn yr ysbyty.

Merched y Wawr: Estynnwyd croeso cynnes gan y llywydd, Menna Williams, i nifer dda o aelodau yng Nghyfarfod Blynnyddol y Gangen. Bu'r dasg o ethol swyddogion ac aelodau o'r pwyllgor yn un rhwydd a diolchwyd i'r aelodau am eu parodrwydd.

Cytunodd Phyllis Elis ac Ann Ifans i gymryd gofal misol o'r Llyfr Lloffion o fis Medi 1995 ymlaen.

Balch oeddem o weld Megan Roberts yn bresennol wedi'i thriniaeth yn yr ysbyty.

Cydymdeimlwyd â Julie yn ei phrofedigaeth o golli tad-yng-nghyfraith.

Bydd cynrychiolaeth o'r gangen yn

casglu at Ymchwil y Galon ddiwedd mis Mehefin a dechrau mis Gorffennaf; ac at yr Henoed yn ystod yr hydref.

Dymunir hysbysu pob un o'r merched sy dros 50 oed y bydd Gwasanaeth Bronbawf Cymru yng Nghaernarfon o Fedi i Ragfyr.

Enillydd y raffl oedd Megan Roberts. Diolchwyd i Gwenda, Sandra a Pat am wneud y baned.

Trefnir Trip Dirgel, nos Fawrth, 20 Mehefin, sef y drydedd nos fawrth, i gychwyn o Benisarwaun am 6.20 p.m. Enwau i Mary Roberts, Gwyndy, os gwelwch yn dda. Ffôn: 675385.

Capel y Rhos: Cynhelir y trip Ysgol Sul i Butlins ar ddydd Sadwrn, Gorffennaf 1af. Dylid cysylltu â Rolant Wynne, Fron Hyfryd Uchaf (678629) am fwy o fanylion ac i roi eich enwau erbyn Mehefin 11eg.



Genethod dosbarth hŷn Ysgol Sul Capel y Rhos a gododd £110 at y Ganolfan Gymunedol newydd.



Plant iuengaf yr Ysgol Sul a gododd £67.60 at y Ganolfan drwy lunio cadwyn arian.



Mrs Inigo Jones, Eilionwy, a Mrs Sally Thomas, Min y Rhos, dwy o aelodau Capel Bryngwyn a ddathlodd eu pen-blwyddyn 90 oed yn ddiweddar.

COFEB I ARCHESGOB

Y Parchedig Idris Thomas, Trefor, Deon Gwlad Arfon, yn dwyn i gof diwrnod i'w gofio ym Mhenisarwaun.



Mawr oedd y dathlu ar 8 Mai eleni mewn llawer man, a mawr oedd y diolch am y llu mawr a gollodd eu bywydau ledled Ewrop yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Yn dilyn gwasanaethau i gofio hyn daeth tyrfa fawr i bentref Penisarwaun yn ystod y prynhawn i ddiolch am un oedd â chysylltiad bore oes a chyfnod ieuencid â'r ardal hon, sef y diweddar Archesgog Gwilym Owen Williams (1913-1990).

Er mai bachgen chwech oed oedd y cyn-Archesgob pan symudodd ei rieni i Benisarwaun o Lundain bu'n byw yma hyd nes iddo ddechrau ar ei yrfa ddisglair yng Ngholeg yr Iesu, Rhydychen, a bu'r blynyddoedd y bu'n byw yma gael effaith a dylanwad arno.

Buddiol, felly, oedd i Siapter Offeiriad Arfon fynd ati i roi Cofeb ar ei hen gartref, lle saif rhif 7 Tai Arthur ac Arthur House heddiw, ond yn nyddiau yr Archesgob roedd yma siop, ac adwaenid ef yn annwyl gan bobl y fro fel 'Gwilym Siop'. Tri ohonom, y Parchg Tegid Roberts, Clerig mewn gofal Plwyf Penisarwaun, y Canon R. Glyndwr Williams, Bangor, a minnau, fu wrthi yn pwyllgora ar ran y Siapter i drefnu'r achlysur a mwynhawyd yr holl baratodau.

Balch oeddem fod y tywydd ar diwrnod yn ffafriol gan y byddem, wedi'r gwasanaeth yn Eglwys St. Helen, cyn cerdded i'r tŷ sydd rhyw filltir a hanner o daith o'r addoldy.

GWASNAETH YN YR EGLWYS

Roedd yr Offeiriad a'r Darllenywyr Lleyg yn ymwisgo yn Ysgol Gymuned Penisarwaun a chawsant gyfle i weld yr ysgol newydd sbon. Roedd yr Eglwys yn orlawn pan ddathl mintai yr ysgol a'r rhai oedd wedi ymwisgo yn y festri at ei gilydd i ffurfio gorymdaith luosog.

Yn dilyn gweddi agoriadol yng nghefn yr Eglwys gan y Parchg Tegid Roberts, canwyd emyn Eifion Wyn, 'Molwn Di, O Dduw ein tadau', a lediwyd gan Ddeon Bangor, T. Erwyd Edwards. Estynnwyd croeso i bawb, a gair o eglurhad am y cyfan, gan Ddeon Gwlad Arfon a fynegodd fod y darlleniadau a'r emynau wedi eu dethol gyda golwg ar fywyd G. O. Williams gan gwmpasu ei gariad, ei gonsyrn, a'i ddyheadau am fywyd crefyddol Cymru a'i phobol; ei awydd mawr am undeb gweledol ymysg yr enwadau; a'i ran yn y cyfieithiad newydd o'r Beibl. Croesawyd yn arbennig i'r achlysur Mrs Caroline Williams, merch-yng-nghyfraith y cyn-Archesgob a'i meibion, Sam a Mathew. Roedd eu taid yn meddwl y byd ohonynt.

Darllenwyd y Llith gyntaf gan Archddiacon Bangor, Elwyn Roberts (Ecclesiasticus 44:1-15). Lediwyd yr ail emyn, o waith Dewi Tomos, 'Am blanu'r awydd gynt am Feibl yn ein hiaith', gan y cyn-Archddiacon Hugh Arfon Evans, Yr Wyddgrug, a chafwyd ganddo wybodaeth am gyfraniad G. O. Williams i'r gwaith mawr o sicrhau cyfieithiad newydd.

Darllenwyd yr ail Lith (Rhufeiniaid 15:1-13) gan Archesgob Cymru, ac yna cafwyd eitem gerddorol gan rai o blant Ysgol Gymuned Penisarwaun, sef 'Meddwl am Fyd', o dan arweiniad un o athrawesau yr Ysgol, Mrs Ann Thomas.

Nid oes cyfansoddwr gweddiâu gwell na'r Canon R. Glyndwr Williams a hyfryd oedd ei glywed yn offrymu gweddiâu arbennig i'r achlysur, a hynny yng nghorff yr Eglwys. Priodol iawn, wrth gofio am waith G. O. Williams yn y maes eciwmenaid, oedd canu yr emyn 'O pâr i'th Eglwys, Ti'r winwydden wir', a lediwyd gan Archddiacon Meirionnydd, Saunders Davies, ac roedd y geiriau 'O gwna yn awr yn un', yn crynhoi gobaith G.O.

Soniwyd am fywyd a gwaith G. O. Williams gan Esgob Bangor, Barry Morgan, a'r Canon William Price, o Goleg Llanbed, sydd wrthi yn paratoi cyfrol i gofio am G.O.



Soniodd Esgob Bangor am ei adnabyddiaeth ef o'r cyn-Archesgob, am ei gymeriad hoffus a'i ddycnwch mawr wrth gofio am ei chwarter canrif yn Esgob ar un Esgobaeth a chyfuno hynny am un mlynedd ar ddeg fel Archesgob y Dalaith. Soniodd Esgob Bangor am y cyffyrddiadau personol a brofodd o'i adnabyddiaeth ohono. Roedd anerchiad y Canon William Price wedi ei rannu i bum rhan: bywyd G.O.; ei waith eciwmenaid; ei waith yn hybu dwyieithrwydd; ei waith fel Bugail Eneidiau; a'r llu o amrywiol sefydliadau yr oedd yn rhoi egni iddynt. Cawsom olwg ar sut yr oedd meddwl mawr G.O. yn gweithredu wrth i'r Canon Price sôn am ambell i lythyr ac erthygl. Edrychir ymlaen at y gyfrol goffa.

Yn sŵn emyn Lewis Valentine, 'Dros Gymru'n gwlad', yr aethom allan o Eglwys St. Helen i baratoi ein hunain i gerdded am Tai Arthur. Yr organydd oedd Mr Cyril Williams a chafwyd cymorth offerynwyr o Seindorf Deiniolen o dan arweiniad Mr Dafydd Williams.

DADORCHUDDIO'R GOFEB

Gorymdaith luosog oedd yr un a gerddodd y pnawn hwnnw o'r Eglwys i Tai Arthur, gyda Seindorf Deiniolen yn ein harwain, a chyfle i bawb fwynhau yr olygfa — gyda'r Wyddfa ac Elidir yn genfdir. Tu ôl i'r Seindorf cerddai'r Croesgludydd, y Parchg D. Noel Jones, Llanllyfni; yna Archesgob Cymru ac Esgob Bangor, yn cael eu dilyn gan yr Offeiriad a'r bobl. Sicraodd yr heddlu na fyddai trafndiaeth ar y rhan hon o'r ffordd yn ystod yr orymdaith a diolchir iddynt am hynny.

Pan gyrhaeddwyd Tai Arthur gwelwyd fod llen dros y gofeb a'r llen hwnnw'n cael ei chwifio gan awel y pnawn. Gosodwyd y gofeb ar fur y ddau dŷ, sef cartref Mr a Mrs D. Phillips, 7 Tai Arthur; a Mr a Mrs Philip Pyke, Arthur House, sef hanner ar fur un tŷ ac ar y llall. Yng nghyfnod G. O. Williams, un tŷ ydoedd. Wedi'r croeso gan y Parchg Tegid Roberts cawsom eitem gan Seindorf Deiniolen, dan arweiniad Dafydd Williams, sef 'Nimrod' ac roedd yn ddarn addas i'r achlysur. Llongyfarchwyd Seindorf Deiniolen ar ddod yn bencampwr Cymru ac fe ddymunwyd yn dda iddynt yng nghystadlaethau Prydain yn ystod yr hydref.

Daeth y Canon R. Glyndwr Williams ymlaen i'n harwain yn y Salm 121: 'Codaf fy llygaid tua'r mynyddoedd; o ble y daw cymorth

i mi?' Yna fe ddadorchuddiwyd y gofeb gan Archesgob Cymru gan ddweud: 'Coffawn yn awr ein gwŷr enwog. Er gogoniant i Dduw ac er cof gweledig ac anrhydeddus am ei was ffyddlon, Gwilym Owen Williams, Esgob Bangor ac Archesgob Cymru, dadorchuddiaf y gofeb hon ym mur ei hen gartref ym Mhenisarwaun . . . yn Enw'r Tad, a'r Mab a'r Ysbryd Glân. Amen.'

Am y tro cyntaf yn gyhoeddus gwelwyd y gofeb gyda'r geiriau, 'Cartref Gwilym Owen Williams: Esgob Bangor 1957-1982; Archesgob Cymru 1971-1982: Canmolwn yn awr ein gwŷr enwog.'

Lluniwyd y llechen hardd gan Mr Gwilym Williams, Deiniolen, a diolchir iddo am ei waith cywain. Cyn gorffen y cyfan gyda'r Fendith gan Esgob Bangor canwyd un o emynau Cynan: 'Yr Arglwydd yw fy Mugail cu' i gyfeiliant y Seindorf.

Cerddodd pawb yn ôl i Neuadd Eglwys Penisarwaun lle roedd lluniaeth ardderchog wedi'i pharatoi gan ferched caredig Eglwys St. Helen. Diolch iddynt am y croeso a'r ymborth.



Yr Archesgob yn dadorchuddio'r gofeb.

'A THRWM Y CERDDAIST'

Pan oedd Gwilym Owen Williams yn ei flwyddyn neu ddwy olaf, ac yn dioddef o afiechyd blin, byddai ei ffrindiau yn gofyn iddo ble y dymunai fynd am dro yn y car — 'Ewch â mi i Benisarwaun' fyddai ei gais. Daeth llu mawr i Benisarwaun ar 8 Mai i gofio amdano ac i osod cofeb fydd yn ei gysylltu â bro ei blentyndod a'i ieuencid.

Dro ar ôl tro y diwrnod hwnnw roedd disgrifiadau fel 'dyn o flaen ei oes' a 'gŵr fyddai'n hoff o gymodi' yn cael eu mynegi. Ond credaf fod un frawddeg gan wraig o'r ardal yn dweud y cyfan amdano, sef 'roedd ei acen agos-at-rhywun yn dweud yn syth mai o'r fro hon yr oedd G.O., ac roedd hi'n acen a arhosodd gydag ef ar hyd ei oes; cholodd o ddim ohoni o gwbl'. Brawddeg gwraig werinol yn llygad ei lle. Ar gychwyn y gwasanaeth soniais fod dwy linell o waith Iolo Goch i esgob arall yn gweddu i Gwilym Owen Williams yn ogystal:

*Trwyadl yw ar ddadl ddidwyl,
Doethaf y barnaf ei bwyll.*

Cerddodd i lawer maes yn ystod ei oes a gwnaeth yr hyn a ddywed John Edward Williams yn ei gerdd iddo:

*A doist i'n plith a'th drem yn glir
A thrwm y cerddaist yn ein tir.'*

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: 872407

Camera yng ngofal Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug. Ffôn: 677263

Ysgol Gymuned Penisarwaun: Anrhydedd mawr i'r ysgol oedd derbyn gwahoddiad gan y Parchg Tegid Roberts i gymryd rhan yn y gwasanaeth coffa yn Eglwys Santes Helen i'r diweddarch Archesgob Gwilym Owen Williams. Er fod yr ysgol ar gau i'r plant ar ddiwrnod y gwasanaeth, cafwyd cynrychiolaeth gref o blith plant Bl. 4, 5 a 6 i gyflwyno eitem gerddorol i'r gynulleidfa, dan arweiniad Mrs Ann Thomas.

Gyda'r tywydd yn gwella, mae mwy o gyfle i ni gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored. Yn ddiweddar daeth Mr Austin Thomas draw atom i gyflwyno sgiliau Rygbi'r Ddraig i blant yr Adran Iau. Fe gafodd pawb bnawn pleserus, a blinedig, a chyn ymdadael cyflwynodd ddau grys-T arbennig i'r ysgol, yn hysbysu 'Cwpan y Byd'. Charlotte Bellis oedd enillydd y raffl fewnol a gynhaliwyd ar gyfer y crys-T, tra mae'r ail grys wedi ei basio ymlaen i'r Cyfeillion ar gyfer raffl yn y dyfodol agos.

Cafodd yr ysgol bêl arbennig yn ddiweddar, un sydd wedi cael ei harwyddo gan dîm pêl-droed Wrecsam. Mae hon hefyd wedi ei throsglwyddo i'r Cyfeillion er mwyn codi arian i'r ysgol.

Fel rhan o'u thema am Llywelyn Ein Llyw Olaf aeth plant Bl. 5 a 6 i ymweld â Chastell Dolbadarn. Fel rhan o'r ymweliad cafwyd cyfle i ymarfer ychydig ar ein gweithgareddau cyfeiriannu, ac ychydig ddyddiau yn ddiweddarach daeth Mrs Anita Long i'r ysgol i atgyfnerthu sgiliau cyfeiriannu y plant.

Ar hyn o bryd mae Bl. 5 a 6 yn brysur yng nghanol cyfres o wersi diogelwch y ffordd dan ofal Mr Dafydd Edwards. Yn syth ar ôl y Sulgwyn fe ddaw yr arholiad fawr, a dymunwn yn dda i'r ymgeiswyr i gyd.

Mae'r plant lleiaf wedi bod yr un mor brysur hefyd. Yn ogystal ag ymweld â Theatr Gwynedd, i weld cynhyrchiad am un o lyfrau Angharad Tomos, bu'r dosbarth yn Oriel Eryri yn gweld arddangosfa o gelfi colchi 'slawer dydd'. Fel rhan o'r un thema, sef 'Diwrnod Golchi', daeth Mrs Betty Eleanor Evans draw i siarad gyda'r plant am sut ethos oedd i ddiwrnod golchi traddodiadol

flynyddoedd yn ôl Diolch yn fawr iawn i 'Mrs Evans am ddod draw i rannu ei phrofiadau gyda ni mewn dull mor ddifyr.

Er mai tîm bach aeth draw i'r Ganolfan Hamdden i gynrychioli'r ysgol yn y Gala Nofio, fe gafodd pob un ohonynt bleser o'r profiad o gymryd rhan. Wedi iddynt ddychwelyd fe gyflwynwyd pob un ohonynt â thystysgrif arbennig i gofio'r achlysur.

Yn fuan ar ôl y Gala Nofio cynhaliwyd cystadleuaeth Tlws yr Eco. Aeth cynrychiolaeth o'r ysgol draw i Lanrug i gymryd rhan o dan ofal Mr David Phillips, a mawr yw ein diolch iddo am edrych ar eu hólau.

Parhau i gefnogi'r ysgol mae'r Cyfeillion. Yn ogystal ag ymgymeryd â chostau bws ar gyfer ymweliadau addysgol, mae'r Cyfeillion newydd gyflwyno i'r ysgol ddwy drol gyfrifiadur a throl deledu. Gwerthfawrognw gefnogaeth y Cyfeillion yn fawr iawn, a diolchwn iddynt am eu gwaith diflino.

Trip yr Ysgolion Sul: Eleni bydd y trip yn mynd i'r Rhyl, ar Sadwrn, 1 Gorffennaf, gan gychwyn yn brydlon o Groeslon King am 9 a.m. Enwau, rhag blaen, i Elizabeth Jones, ffôn: 872421; neu Ann Paterson, ffôn: 872405. Y pris fydd £4 i oedolion a £2 i blant sydd heb fod yn aelodau o'r Ysgol Sul.

Gwellhad: Balch ydym o glywed fod Mrs Gaynor Williams adref ym Mryntirion wedi arhosiad yn yr ysbyty. Anfonir ein cofion gorau at



Y recordyddion a gymerodd ran yng ngwasanaeth dadorchuddio Cofeb i'r Archesgob G. O. Williams.

Mrs Eluned Porter wedi'i thriniaeth yn Lerpwl ac sydd ar hyn o bryd yng nghartref Y Foelas, Llanrug. Cofion annwyl atoch chi a Mrs Nellie Roberts.

Profedigaeth: Estynnir ein cydymdeimlad llwyr i Dafydd Owen a'r teulu oll ar farwolaeth sydyn ei frawd yn y Groeslon.

Cydymdeimlir yn ddwys â Mrs Elen Williams, 2 Bryntirion yn ei phrofedigaeth o golli ei brawd yng nghyfraith.

Llongyfarchiadau: Pob dymuniad da i Catherine Mary Griffith ar achlysur ei phen-blwydd yn 18 oed yn ddiweddar.

Llongyfarchiadau a phob bendith i Siôn Bedwyr ar gyrraedd ei 21ain ar 9 Mai.

Dathlodd Mrs Eluned Porter ei phen-blwydd yn 80 oed yn yr ysbyty yn Lerpwl. Er fod cryn bellter rhwng Lerpwl a'r pentref eto i gyd roeddech yn agos iawn at galonau trigolion y pentref ar 13 Mai.

Cydnabyddiaeth: Dymuna Mrs Gaynor WWilliams a Mrs Eluned Porter ddiolch i bawb am y llu cardiau, galwadau ffôn ac ymweliadau yn ystod eu gwaeledd.

Dymuna Siôn Bedwyr ddiolch i'w deulu, cymdogion a ffrindiau am eu caredigrwydd ar ddathliad ei ben-blwydd yn 21ain oed. Dymuna ddiolch yn arbennig i 'Johnny', sef Jonathan Richardson, am ei gerdyn a'i anrheg ac yntau mor bell yn Bosnia. 'Diolch, a brysia adref, mêt,' yw'r neges iddo. Y mae'n derbyn yr Eco yn fisol.

Pwyllgor Neuadd: Tynnwyd Clwb Cant mis Ebrill, a'r enillwyr oedd: 1, A. Morris, Cae'r Waun; 2, S. Griffith, 16 Bryntirion; 3, Eurgain Haf, Sycharth.

Ysgol Sul Bosra: Llongyfarchiadau i'r plant am gasglu mor anrhydeddus tuag at y Genhadaeth Dramor. Canmolir hwy bob blwyddyn yng Nghymanfa'r Methodistiaid fel yr Ysgol Sul orau am gasglu tuag at yr achos teilwng hwn. Diolch i Mrs Elizabeth Jones am annog y plant.

Cymdeithas y Beiblau: Cynhelir gwasanaeth gan blant ysgolion y cylch am 2 p.m. yn Eglwys Llandinorwig, Deiniolen, bnawn Sul, 25 Mehefin. Bydd Cymanfa Ganu am 6 yr hwyr. Gwneir casgliad at y Gymdeithas. Trefnir bws.

Genedigaeth: Llongyfarchiadau i Siân a David Hughes, Tai Ffynnon, ar enedigaeth eu merch fach. Pob hapusrwydd ichwi fel teulu.

Eglwys Santes Helen: Llongyferchir aelodau'r Ysgol Sul am eu gwaith canmoladwy yn y Gymanfa a gynhaliwyd yn Eglwys y Sants Fair, Y Felinheli, bnawn Sul, Mai 29. Llongyfarchiadau arbennig iddynt am ddod yn ail gyda'u cywaith. Cafodd Ynyr Gruffydd farciau uchel iawn am ei waith ysgrifenedig ac fe dderbyniodd Gwpan Offieriad Alun Jones.

Trip: Trefnir trip ar y cyd â chyfeillion o efaill eglwys Cemaes, ar Sadwrn, 10 Mehefin, i Abaty Glyn y Groes a Llangollen. Cychwynnir o Eglwys Santes Helen am 9.30 a.m., a'r pris fydd £5. Y mae lle i 25 — enwau i'r Parchg Tegid Roberts, ffôn: 870760.

Urdd Bentref: Bu nier o aelodau yn cymryd rhan ym Mabolgampau'r Sir a chawsant gryn foddhad. Diolchir i'w hyfforddwraig, Mrs Gwenda Jones, ac i'r rhai fu'n eu cludo yno.

Arholiadau: Pob lwc i chwi oll yn yr arholiadau.

Diolch: Dymuna Siân a Huw Huws, 2 Tai Ffynnon, diolch i Pam a Bernie, y bydwagedd cymunedol a helpodd ar achlysur genedigaeth eu merch fach Leah Shakespear ar Fai 13eg. Llauer o ddiolch i bawb am eu cyfarchion caredig a'u hanrhegion.



Aelodau Ysgol Sul Bosra gyda thystysgrifau y Genhadaeth Dramor.

Siop Trin Gwallt
SANDRA
Stryd Fawr
DEINIOLEN
Ffôn: 872112

- Ar agor bob diwrnod o'r wythnos
- Prisiau arbennig i bensiynwyr

Ffenestri

CELTIC

Windows

2 TAN Y BRYN, BETHEL

BUSNES TEULUOL • CREFFTWYR LLEOL
FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS

NEWYDD! DRYSAU PALADIN —
HARDDWCH COED HEB Y STRACH!

Ffoniwch am amcanbris — rhad ac am ddim



(01286) 671181
(0831) 326160



CHWARAEON




Tim Llanberis — pencampwyr cynghrair dan 13 Gwyrfa. Gweler y stori ar dudalen newyddion Llanberis.

AR Y BRIG

Dyfarnwyd Canolfan Ddringo Beacon, Ceunant, yn gyntaf yng nghystadleuaeth Gwobr Fenter a hyrwyddir yn flynyddol gan TARGED Cyngor Hyfforddi a Menter Gogledd Orllewin Cymu a Banc NatWest.

Y ganolfan yma, sydd ym mherchnogaeth Steven J. Mayer a Gill Lovick, yw'r fwyaf yng Nghymru. Wedi cwblhau yr adran hyfforddi arbennig ddechrau'r haf, hon fydd un o'r bedair brif ganolfannau dringo ym Mhrydain.



Steven Mayer ar y wal ddringo.

Beirniadwyd y gystadleuaeth gan Hywel Roberts, Cyfarwyddwr Lleol Banc NatWest; Liz Cross, Rheolwr Marchnata TARGED; Chris Jackson, Sŵ Fynyddig Cymru; a Mari Stavros, Taferna Firefly, Blaenau Ffestiog, enillydd y llynedd. Roedd y beirniaid wedi'u plesio gyda safon, potensial a chadernid y busnesau ac hefyd ag ymrwymiad ac ysbryd mentrus y cystadleuwyr.

Dywedodd y tri chystadleuydd a ddaeth i'r rownd derfynol fod Lwfans Menter TARGED wedi bod o fudd mawr iddynt wrth sefydlu eu busnesau yn y dyddiau cynnar a bod gwasanaethau cyngor ac arweiniad arbenigol TARGED yn parhau yn ddefnyddiol wrth i'r busnesau ddatblygu a thyfu.

Roedd Steven a Gill yn falch iawn o'r wobwr gyntaf o £1,000. Bwriadant ddefnyddio'r arian i ddatblygu adran ddringo newydd i ddechreuwr gan ymateb i ofynion cynyddol ysgolion a thwristiaid.

CWRS GOLFF TYDDYN MAWR



Wrth ddod allan o Ysgol Brynrefail yn ddiweddar hawdd gweld fel mae'r Cwrs Golff yn dechrau dod i drefn. Gan ei bod yn noson braf teimlais fel mynd am dro a chael gair gyda'r giaffar, Meirion Hughes.

Wrth gerdded y Cwrs rhyfeddais at weld y newid sylweddol yn y tirlun. Bellach mae'n edrych fel Cwrs Golff. Fel y dywed Meirion 'Flwyddyn union yn ôl roedd defaid yn pori'r Cwrs a chafwyd byrnau silwair oddi arno ym Mehefin'. Felly, trwy adael i natur weithio'n dawel a threulio peth amser yn torri'r gwair yn rheolaidd, cred Meirion y bydd y Cwrs yn dderbyniol, i ddechreuwr beth bynnag, erbyn canol haf — union flwyddyn wedi cychwyn ar y

gwaith o droi porfa ddefaid yn wyrddni maes golff.

Fe hoffai Meirion ddweud fod y pecyn gwybodaeth wedi'i argraffu a'i anfon i'r unigolion hynny sy'n barod a'u henwau yn y 'Llyfr Gwyrdd'. Bydd ganddynt hyd ddiwedd Mehefin i gadarnhau eu diddordeb mewn ymuno â'r Clwb Golff drwy anfon ffurflen gais yn ôl gyda'r taliad o drigain punt (£60) i Drysorydd y Clwb, Mr Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug. Sיעiau i'w gwneud yn daladwy i 'Clwb Golff Tyddyn Mawr'. Yn y man, fel derbynneb, bydd Disg Aelodaeth ar gael.

Mae'r Pwyllgor Llywio wedi trafod yr agwedd 'Talu am Balu' ar y Cwrs ac wedi penderfynu codi tâl o £3 y rownd ar benwythnosau a £2 y rownd ar noson waith.

Mae'r pwyllgor yn rhagweld diddordeb mawr mewn chwarae golff ymysg yr ifanc ac wedi penderfynu, am y tro, beidio'u cynnwys yn aelodaeth y Clwb ond eto yn eu croesawu ymhlith rhengoedd y 'Talu am Balu' am dâl o £1 y rownd. Trwy fabwysiadu'r drefn hon bydd yn bosibl mesur gwir diddordeb y glasnciau ac yna trefnu ar eu cyfer, gyda chefnogaeth eu rhieni wrth gwrs, erbyn canol Gorffennaf, sef diwedd y flwyddyn addysgol. Daliwch eich gwynt chwi lanciau cyhyrog!!

Cyn i'r Cwrs agor mae Meirion yn erfyn ar i'r rhai hynny fydd yn mentro am y tro cyntaf, i ddarllen am reolau golff sydd yn y pecyn gwybodaeth gan ddod yn gyfarwydd â thermâu fel 'Ffôr' — sy'n floedd o rybudd i'r sawl sydd yn digwydd bod yn llwybr pêl ar gyfeiliorn. I annog rhai i anelu'n syth bydd arwyddion ar y Cwrs yn dynodi 'Ffin Fewnol'. Golyga hyn bod yr erbyd honno ddim yn cyfrif a'r ergyd nesaf yn golygu cosb o ddwy ergyd. Dyna ffordd wirion i ddifetha cerdyn dal!

Wrth chwarae yn rheolaidd gyda chwaraewyr profiadol fe ddaw y Dysgwr i deall thermâu golff. Bydd taflen 'Geirfa Golff' a 'Llyfr Rheolau Golff' (trwy garedigrwydd Cwmni Yswiriant y Royal) ar gal i'r aelodau gyda'r Disg Aelodaeth. I'r rhai fydd yn dewis chwarae ar sail 'Talu am Balu' bydd manylion am y rheolau ar gael yn y dderbynfaf.

Deallaf oddi wrth Meirion fod y Pwyllgor Llywio wedi penderfynu cyfyngu nifer yr aelodaeth, ar y cychwyn, i 280 o oedolion, h.y. rhaid dros 18 oed. Felly, chwi 'hacwyr' hyderus mentrwch i'r maes golff i wireddu dyhead bore oes.

Wrth ffarwelio â Meirion canmolais wal y ffordd a'i gorffeniad traddodiadol 'Ceiliog ac Iâr'. Da yw gweld fod yna grefftwyr yn yr ardal sy'n dal i feithrin yr hen arferion. Mae'n ddeniadol Meirion, ac yn gweddu i'r ardal. Cyn gorffen wal y fynedfa ei hun bydd rhaid cynnal profion ar galedwch y ffordd gan ei bod hefyd yn rhodfa i gerbydau a lorïau y Stad Ddiwydiannol sydd, ar hyn o bryd, yn rhannu'r safle. Deallir y bydd arbenigwyr, ar ran Meirion, yn trafod manylion y ffordd newydd gyda Swyddogion Adran Gynllunio Arfon ac Adran Prifffyrdd Gwynedd. Ni ddylai'r ffordd fod yn faen tramgwydd. Rwy'n ysu, Meirion, am gael defnyddio'r celfi... mae'r rhwd yn brysur ddiflannu!



Tim Bethel — pencampwyr ail adran cynghrair dan 13 Gwyrfa.

MAE'R BO'S YN ÔL

Rhoddir cryn dipyn o bwyslais ar bêl-droed ieuencid y mis yma. Eleni, am y tro cyntaf, sefydlwyd tîm o dan 9 oed yn Llanrug. O gofio siomiant cyffredinol y tîmau oedolion rhaid edmygu cyfraniad unigolion sy'n fodlon gweithio i ddatblygu'r 'gwreiddiau'. Bydd cryn sylu i weld os yw llwyddiant tîmau, ac unigolion, lleol yn yr oedran ieuencid yn cael ei adlewyrchu ym mherfformiadau tîmau hyn yr ardal ymhen ychydig o dymhorau.

Bu'n dymor llwyddiannus iawn i dîm o dan 9 oed Llanrug. O'r deg gêm a chwaraewyd fe enillwyd saith, dwy gyfartal, a cholli un. Roedd yna gyfanswm o 25 o goliau wedi eu sgorio, a dim ond pedair yn eu herbyn, a hynny yn adlewyrchu agwedd ymosodol y tîm. Pwy ddwedodd nad yw amddiffynwyr yn gwneud hyfforddwyr dal!

Y mae'r 'babi' newydd yn hynod


o ddiolchgar i Philip Harris Medical am eu nodd parod. Diolch hefyd i'r llu o helpwyr parod ac i David Philips (870909) a Deiniol Evans (872497) am eu hymroddiad ac amynedd. Gellir cysylltu â'r ddau os oes unrhyw blentyn â diddordeb ar gyfer y tymor nesaf.

Uchafbwynt y tymor oedd Sadwrn, 22 Ebrill, pan groesawyd tîm ieuencid Clwb Bohemians o Ddilyn. Mae'n cefndryd Celtaidd yn cynefino â bro'r Eco gan iddynt ymweld â Bethel y llynedd. Beth am i dîm yn cynrychioli'r fro deithio i Ddilyn? Chwaraewyd dwy gêm ar Eithin Duon gyda'r tîm 'A' yn ennill 6-1; a'r tîm 'B' yn cael gêm gyfartal 2-2. Chwaraewyd y ddwy gêm mewn ysbryd iach a chyfnwyddwyd tlysau i nodi'r achlysur. Dewiswyd Mathew Philips (A) a David Pritchard (B) fel 'chwaraewyr y gêm' gan y Gwyddelod.



Hogia Llanrug a chwaraeodd yn erbyn y Gwyddelod.

CROESAIR MEHEFIN



AR DRAWS

1. Magu crawn (5)
4. Y ganfed Salm a'r ail ym Mathew yn disgrifio cyfrwng teithio (6)
8. Hogyn fy chwaer (3)
9. Galw 'to, erfynia'r hwntw (6)
10. Dyffryn Dafydd a John (5)
11. O fynd â mwy o goed i Fargoed, mae'n flin iawn 'da fi (6)
12. Hylif sy'n ddefnyddiol i'r ysgrifennwr (3)
14. *Gweler y nodiadau*
18. Hanner! (6)
20. Merch o'r ganrif ddiwethaf yn brifo. Wel, bron iawn (5)
21. Rhywbeth grymus yng nghymdeithas y Gweinidog a llu o gapelwyr eraill (6)
23. Gall hon fod yn 8 ar draws hefyd (3)
24. Sawl tro eto yng ngwlad y gân? Cawn ein atgoffa yn nechrau Awst (6)
25. 5 i lawr, o dlodi (5)

I LAWR

1. Roedd pawb yn gwybod am gyflwr Caledfwlch, o'r comin i ogof Arthur (6)
2. Un sy'n gwneud defnydd o'r ysgol (6)
3. Sythu (6)
5. Cymro o wlad arall, tu draw i'r môr (5)
6. Hanner cant yn y dechrau ac yn y diwedd, ond dim un yn y canol, dyna i chwi ffwlbril! (3)
7. Di-waith (5)
11. Mae rhan fach o'm cynefin yn baradwys (3)
15. Ar ei draed yn dangos ei wrthwynebiad (6)
16. Donald yn cerbyddu Daniel ar ei ffordd yn ôl (6)
17. Un sy'n ceisio achub y rhai colledig, ar ba sawl troed y crwydrent (6)
18. Crafu hyd at syrffed (5)
19. I rifo yn anghywir, mae'n rhaid wrth ysgithr (5)
22. Cynffon pysgodyn yn cyfeirio'r llong (3)

ATEBION CROESAIR MAI

Derbyniwyd myw o ateb anghywir nag arfer i groesair mis Mai, gyda 12 i lawr y maen tramgwydd i'r mwyafrif. Cytunaf fod SBEL neu SPEL 'yn gafael ynddi am ychydig' ond nid yw'r un o'r ddau yn rhoi gair sydd gyfystyr â ffrindiau yn ôl, sef METS.

Roeddwn yn poeni braidd fod gosod tasg mor ben-agored â dewis gair yn ogystal â chliw iddo yn mynd i fod yn drech na'm gallu i'w beirniadu, ond, yn rhyfedd iawn fe wnaed fy nhasg yn weddol hawdd gan fod nifer ohonoch wedi plymio am yr un geiriau.

O'r atebion cywir, OND oedd cynnig Jean Hughes-Jones, Rhiw; YNN gan Mary Davies, Waunfawr; ac ONN gan Mrs G. Gill, Bangor. WNC oedd dewis Mrs E. W. Pritchard, Garndolbenmaen; ac roedd Mrs D. B. Jones, Llanrug am UNO. Aeth E. E. Jones, Rhoshirwaun; Catherine Jones, Rhiw, ac Olwen Owen, Llanberis, am ENW. Ond yr hyn a'm synnodd oedd fod y chwech arall, sef Ceinwen Williams, Bethel; Iorwerth a Jean Williams, Caernarfon; N. Hughes, Cwm-y-glo; Elfed Evans, Llanllechid; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; a David Elwyn Williams, Caernarfon, i gyd wedi dewis y gair CNU! (FLEECE —



cneifio neu ysbeilio, yn ôl y *Geiriadur Mawr*).

Fe saerniwyd cliwiau da iawn gan y mwyafrif ohonoch, a'r rhai a apeliodd ataf i oedd: ENW — 'Er ei dorri mae'n dal yn gyfan ar bapur' (E. E. Jones); OND — 'Eithr y geiryn tyngedfennol' (Jean Hughes-Jones); a CNU — 'Euraid oedd hon ar hwrdd yn yr hen fyd' (Elfed Evans); ac yn y drefn yma dwi am eu gosod — gwobr y mis yma felly i **E. E. Jones, Tŷ Mawr, Rhoshirwaun.**

Yn ôl i'r hen drefn y mis yma, lluniwch gliw, os gwelwch yn dda, i 14 ar draws, gan yrru eich atebion i Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun, Caernarfon, erbyn 22 Mehefin.

Dyddiadur y Mis

MEHEFIN

4. **Sul** **DINORWIG:** Dathlu 175 mlynedd ers sefydlu Capel Sardis. Oedfaon am 10, 2 a 6.
5. **Llun** **BETHEL:** Cyfarfod Cyhoeddus yn y Neuadd.
6. **Mawrth** **LLANBERIS:** Y Gyfeillach yn Jerusalem am 2 o'r gloch. Sgwrs gan Mrs Laura Davies.
7. **Mercher** **WAUNFAWR:** Sêl Cist Car yn iard yr Ysgol am 6 o'r gloch. **LLANBERIS:** Plaid Cymru. Noson yng nghwmni Dylan (Traed Wadin) a Neil. **BETHEL:** Is-banelau yr Eisteddfod yn y Neuadd am 7.30.
8. **Iau** **LLANBERIS:** Capel Coch. Cyfarfod Gweddi. **LLANBERIS:** Plaid Cymru. Cyfarfod i ail-lansio'r gangen. **BRYNREFAIL:** Cyfarfod y Chworiydd. Sgwrs gan Selwyn Griffith.
14. **Mercher** **LLANRUG:** Plaid Cymru. Taith ddirgel. 5.45 p.m. o'r Sgwâr.
15. **Iau** **DEINIOLLEN:** Cyfarfod y Chworiydd. Cefnywaun am 7.
19. **Llun** **BRYNREFAIL:** Sefydliad y Merched. Taith ddirgel.
20. **Mawrth** **LLANRUG:** Merched y Wawr. Taith ddirgel. 6.20 o Benisarwaun.
23. **Gwener** **BRYNREFAIL:** Sefydliad y Merched. Ffair Haf. **LLANBERIS:** Ocsiwn Addewidion. Ysgol Dolbadarn am 7.
25. **Sul** **DEINIOLLEN:** Eglwys Llandinorwig. Sul y Beiblau. Cyfarfod y plant am 2. Cymanfa Ganu am 6.
28. **Mercher** **BETHEL:** Pwyllgor yr Eisteddfod Bentref yn y Neuadd am 7.30.
29. **Iau** **BRYNREFAIL:** Plygu'r Eco.

GORFFENNAF

1. **Sadwrn** **CAERNARFON:** Rali Senedd i Gymru am 2 o'r gloch.
2. **Sul** **PEN-Y-GROES:** Cymanfa Ganu Henaduriaeth Arfon yng Nghapel Bethel, Pen-y-groes, am 6.

RHODDION

£5.50: Miss J. Williams, 39 Pennant, Llangefni.

£5: Miss Megan Roberts, Gelli, Llanddeiniolen; Eifion a Dylan, Llys y Gwynt, Penisarwaun; Valmai Davies, 10 Bro Elidir, Dinorwig; Arfon Phillips, 9 Coed

LLWYDDIANT DAU O DDEINIOLLEN

Pleser yw llongyfarch dau wr ifanc a fagwyd yn y pentref ar eu llwyddiant yn y maes gwyddonol. Derbyniodd Dewi W. Lewis, gynt o Llys Myfyr, radd PhD yn dilyn ei waith ymchwil yn Llundain.

Penodwyd Dr Rheinalt Parri, gynt o 10 Tai Victoria, i swydd ymchwilydd ym Mhrifysgol Caerdydd yn dilyn tair blynedd yn gweithio ym Mhrifysgol San Francisco.

Dymuniadau gorau i'r ddau.

y Glyn, Llanberis; Morfudd Jones, Erw'r Coed, Llanberis; Mrs Laura Williams, Tan y Fron, Fach-wen; Wil, Heddwyn, Llynwen, Llinos a Carwyn, er cof am Ann Blodwen; Plant y ddiweddar Mrs Ceinwen Evans, 12 Hafod Elen, Deiniolen; Teulu Mrs Peri Evans, 5 Hafod Oleu, Deiniolen; Mrs Jennie Williams, Cae Corniog; Mrs Blodwen Pritchard, 10 Llys y Gwynt, Penisarwaun; Er Cof am William Evans, Meirionfa, Pen-y-groes; Mrs Jane Jones, Peris View, Llanberis; Gwyneth a Jac Clarke, 16 Dôl Eilian, Llanberis; Mrs Betty Owen, Tros yr Afon, Brynrefail.

£3: Mrs Mair Roberts (Mair Coed), Llanberis; Evelyn Anderson, Bodarfon, Waunfawr. £2.50: Di-enw (trwy law Olwen Llywelyn); Mr a Mrs B. Roberts, Penllyn Farm, Brynrefail.

£2: Mr John Peris Roberts, 11 Maes Eilian, Dinorwig.



Y Golygydd Chwaraeon yn amlwg wedi blino'n lân ar ôl paratoi DWY dudalen gyfan ar gyfer y rhifyn hwn.

CHWARAEON

TLWS YR ECO 1995

Eleni eto cafwyd noson ddifyr wedi'i mwynhau nid yn unig gan y deuddeg tîm ond hefyd gan y llu o oedolion a chefnogwyr. Cafwyd cymorth gan bawb ac er fod y noson yn un hir — yn agos i dair awr — roedd digon i ddiddori'r dorf. Diolch i staff a llywodraethwyr Ysgol Gynradd Llanrug am eu cymwynas barod, ac i'r criw rhieni sy'n cynnal y siop drwy gydol y noson.

Rhannwyd y gystadleuaeth yn ddwy ran — blynyddoed 3/4 a blynyddoedd 5/6. Roedd y goliau yn llai o ran maint eleni ac felly ni chafwyd y toreth o goliau arferol. Serch hynny uchafbwynt y cystadlu oedd perfformiadau nifer o gôlgeidwaid y tîmau. Roedd eu doniau i ddal a thrafod y bêl o safon uchel, yn enwedig o gofio am y gwynt a natur galed y tir. Pwy a wŷr nad oes yna egin Neville Southall arall yma ym mro'r Eco!

Roedd y ddau ddyfarnwr — diolch i Dafydd am ei gymorth — yn canmol ymddygiad y chwaraewyr, er fod y gêmau i gyd yn gystadleuol iawn. Rwy'n siŵr ei bod yn noson bwysig i ddod a phlant fydd yn ymuno a'i gilydd yn yr ysgol uwchradd i ddod i adnabod eu gilydd. Bydd Dic Parry yn fodlon iawn hefo'r criw newydd fydd yn ei ysgol fis Medi nesaf.

Yn y dull cyngrheiriol roedd pob tîm yn chwarae yn erbyn ei gilydd a chafwyd gêmâu clôs iawn. Roedd safod y taclo a'r pasio yn dda iawn. Yn amlwg mae hyfforddwyr y tîmau wedi meithrin y ddawn o gefnogi, 'codi pen' a symud i le gwag ar y maes. Mae ambell i chwaraewr a thipyn o 'daran' yn ei esgidiau hefyd. O gofio llwyddiant Clwb Merched



Dinas Bangor eleni braf oedd gweld genethod yn aelodau o ambell i dîm.

Wedi cystadlu brwd tîm Llanrug a enillodd y Tlws iau, mewn gêm agos iawn yn erbyn Cwm-y-glo. Aeth y Tlws i'r oedran hŷn i Fethel, eto wedi gêm derfynol hynod o agos yn erbyn eu gwrthwynebwyr o Lanrug.

Cyflwynwyd tlysau i aelodau'r pedwar tîm. Rydym yn ddiolchgar i griw cwis y Bedol, Bethel, am noddi'r tlysau i'r ieuenctid, a chyflwynwyd tllws hefyd i bob ysgol a gymerodd ran. Nid yw'r Eco yn hoffi gweld neb yn mynd adre yn waglaw!

Soniais ar ddechrau'r adroddiad hwn fod llwyddiant y gystadleuaeth yn rhwystr oherwydd y nifer o dimau sy'n cymryd rhan. Golyga hyn cryn dipyn o amser rhwng gêmâu pob tîm a chafwyd trafodaeth yn dilyn y gystadleuaeth pryd yr awgrymwyd y dylid chwilio am leoliad gyda dau faes i chwarae arno. Pe bai hynny'n bod gallai'r ddwy gystadleuaeth

CLWB YR EFAIL 1995

Sefydlwyd Clwb 'Refail i hybu'r defnydd o adnoddau Ysgol Brynrefail a lleoliadau eraill yn nalgylch yr ysgol, er mwyn gwneud defnydd o'r cyfleusterau sydd ar gael i bwrpas chwaraeon. Gwneir defnydd o'r amser rhwng 4 p.m. a 6 p.m. yn bennaf, ond eleni gwelir rhaglen sydd yn ymestyn ar y ddarpariaeth wreiddiol ac yn lledaenu i ddefnyddio safleoedd eraill a thu hwnt i oriau rhwng 4 p.m. a 6 p.m.

Mae nifer o'r cyrsiau eisoes wedi cychwyn, ond mae lle ar ambell gwr o hyd. Am fwy o fanylion gellir cysylltu â'r ysgol (01286) 672381.

Rhestrir isod rhai o'r cyrsiau poblogaidd sydd wedi bodoli ers blynyddoedd bellach:

FFITRWYDD

Oed: plant ysgol uwchradd ac oedolion. Lleoliad: Ysgol Brynrefail. Dyddiadau: Mercher, 8 gwers yn dechrau 17:5:95. Amser: 6-7 p.m. Cost: £6.50. Nifer: 20.

CRICED

Oed: blwyddyn ysgol 6, 7, 8, 9. Lleoliad: Ysgol Brynrefail. Dyddiadau: Llun, 8 gwers yn dechrau 15:5:95. Amser: 4.30-5.30 p.m. Bl 6 a 7; 5.30-6.30 p.m. Bl 8 a 9. Cost: £6.50. Nifer: mwyafrif o 20 ym mhob sesiwn.


GYMNASTEG

Oed: blynyddoedd ysgol 4, 5, 6, 7. Lleoliad: Ysgol Brynrefail. Dyddiadau: Gwener, 8 gwers yn dechrau 19:5:95. Amser: 4.00-7.00 p.m., cynhelir tair gwers awr yn unol â'r gallu. Cost: £6.50. Nifer: 15 ym mhob gwers. Offer: dim 'trainers'.

AROBEG

Oed: 13+. Lleoliad: Ysgol Brynrefail. Dyddiadau: Mercher, 8 gwers yn dechrau 17:5:95. Amser 7.00-8.00 p.m. Cost: £6.50 neu £1.00 pob gwers unigol. Nifer: o leiaf 10. Offer: 'trainers'/gwisg addas.

MOR AGOS I'R GAMP LAWN



Ar ddiwedd y tymor, gyda diweddsglo anhygoel, daeth Deiniolen o fewn trwch blewyn i gyflawni'r gamp lawn yng Nghynghrair Sain. Pan oeddent yn ail i Dal-y-sarn o 10 pwynt, a hynny yn hwyr yn y tymor, roedd llawer — y golygydd chwaraeon yn eu mysg — yn teimlo fod y bencampwriaeth unwaith eto am gadw draw o Ddeiniolen.

Fe ddaeth y bencampwriaeth o 1 pwynt; yna Cwpan Alves; yna Cwpan Wil Evans. Yn anffodus ni ddaeth Cwpan Moorings gan y trechwyd yr hogia o 2-1 gan Lanystumdwy.

Llongyfarchiadau i'r tîm, i John a'r pwyllgor am dymor hynod o llwyddiannus. Mae Cynghrair Gwynedd yn awr ar y gorwel.

Erbyn y rhifyn nesaf o'r Eco fe fydd y noson wobrwyo wedi'i chynnal ac fe fydd erthygl lawn yn ein rhifyn nesaf, gan edrych yn ôl ar dymor a fu'n rhyfeddol ar lawer ystyr.

KARATE

Yn ddiweddar bu aelodau clwb Karate Shukokai mwyaf Arfon yn cystadlu yn yr ornest Kata chwarterol. Roedd dros gant yn ymgiprys am y tlysau Zanshin. Enillwyd medalau gan bedwar o'r ardal hon. Enillodd Sian Evans, Deiniolen, fedal aur; a chafodd Marvin Pritchard, Llanrug, ail wobwr; David Herbert, Bethel, drydedd wobwr; a Gavin Williams, Deiniolen, y bedwaredd wobwr. Maent yn ymarfer bob wythnos yng nghlybiau Caernarfon, Bethel a Bangor, a byddant yn cymryd

rhan yn y rownd derfynol yn Llanberis oddeutu'r Nadolig.

Marvin sydd ar y blaen ar hyn o bryd yn y gystadleuaeth i ddod o hyd i'r prif 'fyfyrwr' Zanshin. Caiff y 'myfyrwr' bwyntiau am wahanol ddisgyblaethau, a bydd enillydd y gynghrair yn ogystal â gwobr ariannol.

Mae Clwb Bethel yn cyfarfod bob nos Fawrth am 6.30 o'r gloch yn y Neuadd. Ffoniwch Caernarfon 676166 am ragor o fanylion am y clwb hwn a chlybiau eraill yr ardal.

